

# RHAGLEN LEADER

## ADRODDIAD GWADDOL

G · R · Ŵ · P
GWEITHREDU LLEOL
BRO MORGANNWG

Adroddiad terfynol
gan Ash Futures

Gorffennaf 2019

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Y cefndir: Cynlluniau Busnes 1 a 2, a'r LEADER cyfredol | 5 |
| 3 | Astudiaethau Achos | 17 |
| 4 | Tystiolaeth o effaith y gwaddol | 39 |
| 5 | Casgliadau – effaith y gwaddol | 46 |



**Ash Futures Ltd**

**Awduron arweiniol:** Shane Vallance a Jo Talbot

**Cyfranwyr eraill:** Angharad Butler a Simon Hooton


Rydym yn ddiolchgar am help staff Cymunedau Gwledig Creadigol gyda'r trefniadau ar gyfer y gweithgareddau gwerthuso hyn ac am ddarparu gwybodaeth a data ar gyfer y gwerthusiad. Rydym hefyd yn ddiolchgar am amser, sylwadau a barn y busnesau, rhanddeiliaid ac aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol sydd wedi cyfrannu at y gwerthusiad trwy arolygon, cyfweliadau a grwpiau ffocws.

# 1 Cyflwyniad – amcanion yr astudiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar waddol y prosiectau a gefnogwyd trwy Cymunedau Gwledig Creadigol a'r Grŵp Gweithredu Lleol o 2007 – 2014 gyda chymorth cyllid datblygu gwledig.

Ynghyd â'r gofyn am werthusiad canol tymor (a therfynol) o'r rhaglen gyfredol, roedd y brîff hefyd yn cynnwys yr angen am ymarfer i ddal a darlunio effaith 'gwaddol' y prosiectau a gefnogwyd trwy raglenni LEADER blaenorol – gan ganolbwyntio ar y cyfnod o 2007 ymlaen. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r gwerthusiad canol tymor, sydd wedi ystyried y rhaglen LEADER gyfredol.

Drwyddi draw, roedd gan yr elfen hon o'r gwerthusiad bedwar amcan:

| | |
|---|---|
| EFFAITH LEOL | Gweld effeithiau cadarnhaol parhaus ar brosiectau, pentrefi a sectodau a gafodd gymorth gan y Rhaglen Datblygu Gwledig ers 2007 |
| TONNAU ARIANNU | Deall effaith arian LEADER yn arwain at ddatblygiadau pellach ar lefel prosiect unigol, gyda rhwydweithiau, mewn cymunedau ar ar lefel Bro Morgannwg Wledig |
| CYD-WEITHIO | Deall sut mae LEADER wedi gweithio gyda chronfeydd eraill y Rhaglen Datblygu Gwledig megis Echel 3 a'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig, ynghyd â mudiadau fel Undeb Amaethwyr Cymru a Chyswllt Ffermio |
| GWAHANOL DDULLIAU | Deall sut mae gwahanol ddulliau gweithredu LEADER wedi effeithio ar y canlyniadau a ddisgwyliwyd megis creu swyddi |

Mae'r tasgau rydym wedi'u cynnal ar gyfer yr adroddiad gwaddol hwn yn cynnwys:

- Adolygiad o raglenni LEADER a dogfennau gwerthuso blaenorol: gan ddeall y prosesau cyflawni, meini prawf ac effeithiau'r gweithgareddau
- Dau arolwg ar-lein i arweinyddion prosiect 'hanesyddol': un yn canolbwyntio ar arweinyddion prosiectau busnes a'r llall i arweinyddion prosiect cymunedol a threftadaeth. Fe'u cynhaliwyd yn Gymraeg a Saesneg
- 13 cyfweliad ffôn gydag unigolion yn ymwneud â phrosiectau a gafodd eu cefnogi trwy raglenni LEADER blaenorol. Cefnogodd Cymunedau Gwledig Creadigol hyn trwy gael caniatâd er mwyn eu cyfweld. Roedd rhai o'r cyfweliadau'n ymwneud â chyfres o 'fapiau' gwaddol roedd Cymunedau Gwledig Creadigol wedi dechrau eu datblygu. Rydym wedi'u defnyddio yn yr adroddiad hwn i amlinellu cyfres o astudiaethau achos.

Mae ein gwaith wedi cael ei wella a'i gefnogi gan waith cynnar tîm Cymunedau Gwledig Creadigol ar fapio'r gwaddol. Mae'r mapiau gwaddol hyn yn darlunio'n ddaearyddol sut mae gwahanol brosiectau wedi gweithio trwy wahanol fentrau, gan adeiladu ar gyllid datblygu gwledig cynnar. Mae'r mapiau gwaddol, y byddwn yn eu trafod fel astudiaethau achos yn Adran 3, yn seiliedig ar ystod o wahanol ffocysau:

- busnesau/mudiadau unigol – deall sut cafodd eu 'taith' ei dylanwadu gan y cymorth cychwynnol hwnnw
- daearyddiaeth (lle) – deall sut mae'r rhaglenni wedi cynorthwyo mewn amrywiaeth o ffyrdd mewn rhannau penodol o'r Fro
- ac ar 'thema' – deall sut mae cefnogaeth a gweithgareddau aml-agwedd wedi helpu i ymdrin ag un o amcanion sylfaenol y rhaglenni

Roeddem yn anelu i ategu ac ehangu ar y mapiau gwaddol hyn trwy siarad ag unigolion i gynrychioli rhai ohonynt. Gellir gweld canlyniadau rhai o'r cyfweliadau hynny fel naratif pellach yn y ddogfen hon, gan adeiladu ar y delweddu yn y mapiau gwaddol eu hunain.

Mae'n bwysig nodi, tra bo Cymunedau Gwledig Creadigol wedi dewis rhain fel ffyrdd o ddangos y gefnogaeth iteraidd mae'r rhaglen wedi'i chynnig, na fydd holl brosiectau'r rhaglenni blaenorol wedi cael yr un fath neu faint o gefnogaeth neu effaith barhaus. Serch hynny, mae'r astudiaethau achos yn ddefnyddiol iawn ar gyfer gweld sut mae set cymharol wahanol o brosiectau a gefnogwyd trwy wahanol raglenni, wedi cyfuno i gynnig ffocws sy'n cydweddu. Rydym yn ddiolchgar iawn i Gymunedau Gwledig Creadigol am wneud y gwaith mapio sydd wedi creu sail bwysig ar gyfer ein gwaith dilynol.

Mae'r adroddiad hwn felly wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

**Adran Dau** – canfyddiadau yr amcanion lefel rhaglen blaenorol, y prif ganfyddiadau

**Adran Tri** – y mapiau gwaddol a'r astudiaethau achos cysylltiedig

**Adran Pedwar** – canfyddiadau'r arolwg ar-lein a'r cyfweliadau ffôn gyda chysylltiadau gwaddol

**Adran Pump** – casgliadau, tynnu'r dystiolaeth at ei gilydd i ddeall y prif ganfyddiadau am sut mae rhaglenni LEADER blaenorol wedi arwain at effaith hir-dymor a chynaliadwy

# 2 Y Cefndir: Cynllun Busnes 1 a 2, a'r rhaglen LEADER gyfredol

## 2.1 Beth yw LEADER?

Mae LEADER yn fenter a gyflwynwyd yn wreiddiol gan yr Undeb Ewropeaidd yn 1991 i gefnogi prosiectau datblygu economaidd gwledig sy'n cael eu harwain yn lleol. Mae LEADER yn dalfyriad Ffrengig (Liaison entre actions de developpement de l'economie rurale) ac wedi'i adeiladu ar saith prif egwyddor:

- Mae'n ddull seiliedig ar ardal, wedi'i osod mewn strategaeth datblygu lleol
- Mae'n datblygu o'r gwaelod i fyny o ran strategaeth a chyflawni
- Mae'n tynnu pobl leol at ei gilydd mewn partneriaeth gyhoeddus/preifat/cymunedol i reoli cyflawni – y Grŵp Gweithredu Lleol
- Mae'n ceisio sicrhau gweithgaredd integredig ac aml-sector
- Mae'n ceisio bod yn arloesol ar lefel leol
- Mae hefyd yn ceisio cydweithio ag ardaloedd LEADER eraill
- Ac mae'n ceisio datblygu rhwydweithiau lleol ac annog rhwydweithio

Roedd LEADER i ddechrau'n gweithredu fel rhaglen ar ei phen ei hun ac yn un o Fentrau cymunedol yr UE, wedi'i chefnogi gan Gronfeydd Strwythurol yr UE. Roedd Mentrau Cymunedol yn fodd i'r UE ddarparu ar gyfer mentrau arbennig ar gyfer ardaloedd neu sectorau daearyddol, ac ardaloedd gwledig yn yr achos hwn. Bwriad LEADER oedd creu dulliau newydd o feddwl am ffyrdd o adfywio ardaloedd gwledig, trwy weithgareddau yn cael eu harwain yn lleol o'r gwaelod i fyny.

Yn y lle cyntaf, targedwyd ardaloedd gwledig ymylol a bregus. Erbyn y trydydd cyfnod (2000 – 2006) roedd yn fenter allai fod ar gael i bob ardal wledig. Yn y cyfnod nesaf o 2007, prif-ffrydiwyd LEADER i ddull cyflwyno polisi datblygu gwledig yr UE fel un o bedair math o ddatblygiad, neu 'Echel' y gellid ei gefnogi trwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Daeth yn 'ddull LEADER', yn hytrach na rhaglen benodol LEADER. Roedd yr UE yn disgwyl y byddai o leiaf 5% o'r Gronfa'n cael ei gwario trwy'r dull hwn:

| DOSBARTHU CYLLID CRONFA AMAETHYDDOL EWROP AR GYFER DATBLYGU GWLEDIG YN ÔL ECHEL | | |
|---|---|---|
| ECHEL 1 | ECHEL 2 | ECHEL 3 |
| Natur gystadleuol ffermio a choedwigaeth<br>(o leiaf 10% o'r cyllid) | Amgylchedd a chefn gwlad<br>(o leiaf 25% o'r cyllid – gall fod hyd at 80%) | Ansawdd bywyd ac arallgyfeirio economaidd gwledig<br>(o leiaf 10% o'r cyllid) |
| ECHEL 4 | | |
| Dull LEADER<br>(o leiaf 5% o'r gwariant yn Echelau 1, 2 a 3) | | |

**Ffynhonnell:** *Rural Development and the LEADER approach in the UK and Ireland. Papur Ymchwil Ymddiriedolaeth Carnegie UK 2010*

Yn rhaglen 2007 – 2014 Cymru, oedd â dyraniad cyllideb wreiddiol o £796.9 miliwn, cymerodd Llywodraeth Cymru reolaeth o gyflawni Echel 1 ac Echel 2, gan weithio gyda phartneriaid fel y Comisiwn Coedwigaeth. Cafodd Echel 3 ei gyflawni'n lleol trwy Gynghorau Sir a/neu bartneriaethau lleol ac Echel 4 yn benodol trwy Grwpiau Gweithredu Lleol.

## 2.2 Y Llinell Amser

Yn hanesyddol, mae'r Fro wledig wedi derbyn cyllid i gefnogi gweithgaredd adfywio/datblygu gwledig am tua phymtheg mlynedd.

Roedd Partneriaeth Wledig Bro Morgannwg yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar y Gronfa Gweithredu Cymunedol Gwledig oedd yn weithredol o 2004 – 2007. Roedd hyn yn darparu cyllid o dan bedair thema: menter a sgiliau gwledig; bwyd a maeth; mynediad at wasanaethau / cynhwysiant cymdeithasol; a thwristiaeth, celf a chrefft.

Roedd cyllideb flynyddol o £150,000 yn cefnogi 4 swyddog ar y cyd â chyllideb refeniw o £25,000 ar gael ar gyfer prosiectau allanol. Roedd hynny'n cefnogi prosiectau cymunedol bychain yn 10 ward y Fro wledig.

Yn ogystal â Gweithredu Cymunedol Gwledig, gwnaeth Llywodraeth Cymru hefyd ddarpariaeth ar gyfer cyllid i hyrwyddo addasu a datblygu ardaloedd gwledig yn defnyddio cyllid cyfalaf Erthygl 33[1]. Galwodd Partneriaeth Wledig Bro Morgannwg am geisiadau a phenderfynu ar y blaenoriaethau'n lleol. Yna cafodd y Cyngor arian Erthygl 33 i'w ddosbarthu ac i gynnal ei brosiectau ei hun, a gafodd eu cyflwyno trwy'r broses alw gyhoeddus – cyfanswm gwariant o tua £2m dros dair blynedd. Roedd gan y ffrwd ariannu dair blaenoriaeth:


- Gwasanaethau sylfaenol ar gyfer yr economi a'r boblogaeth wledig – roedd y mesur hwn yn ceisio ymestyn mynediad at wasanaethau prif ffrwd, gan edrych yn arbennig ar sut i ymdrin â dieithrio cymdeithasol a hyrwyddo gwasanaethau sy'n annog menter.
- Adfywio a datblygu pentrefi a diogelu a gwarchod treftadaeth wledig – roedd y mesur yn gwahodd cynigion ar gyfer buddsoddi yn ffabrig y strydlun a mannau agored.
- Annog gweithgareddau twristiaeth a chrefft – roedd y mesur hwn yn ceisio annog cynigion cymunedol i ddatblygu gweithgareddau twristiaeth a chrefft.

**Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007- 2014 – cyd-destun:**

Yna, cafodd cyllid ar gyfer adfywio gwledig ei brif-ffrydio i mewn i'r Cynllun Datblygu Gwledig, oedd yn nodi sut byddai'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig yn cael ei defnyddio yng Nghymru. Roedd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2014 yn gosod cyd-destun buddsoddi mewn datblygiad economaidd cymuned gwledig yn y Fro wledig trwy ddull LEADER ac hefyd trwy Echel 3 Cynllun Datblygu Cymru Wledig, gyda Llywodraeth Cymru yn ei gyflwyno ar lefel leol:

- Roedd Echel 3 Cynllun Datblygu Cymru Wledig yn ymwneud ag ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig ac arallgyfeirio'r economi gwledig (yn cyfrif am 10% o'r gyllideb). Amcanion y mesurau drwyddi draw oedd codi Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) ac ansawdd bywyd. Cafodd ei rannu i nifer o fesurau:
  - Mesur 311: arallgyfeirio i weithgareddau y tu allan i fyd amaeth;
  - Mesur 312: cefnogi creu a datblygu busnesau;
  - Mesur 313: annog gweithgareddau twristiaeth;
  - Mesur 321: gwasanaethau sylfaenol i'r economi a'r boblogaeth wledig;
  - Mesur 322: adfywio a datblygu pentrefi;
  - Mesur 323: cadwraeth a gwella treftadaeth wledig;
  - Mesur 331: hyfforddiant a gwybodaeth ar gyfer cyfranogwyr economaidd sy'n gweithio ym meysydd perthnasol Echel 3
- Echel 4 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru oedd cyflawni datblygiad economaidd gwledig trwy ddull LEADER. Dull datblygu gwledig wedi'i arwain gan y gymuned ('gwaelod i fyny') yn seiliedig ar saith egwyddor LEADER (yn cyfrif am 6% o gyllideb Cynllun Datblygu Gwledig Cymru).

[1] *2000 - 2006, Roedd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cynlluniau o fath LEADER mewn ardaloedd oedd ddim yn rhaglen LEADER trwy gyllid Gweithredu Cymunedol Gwledig ac Erthygl 33.*




**Cyflawni Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2014 yn y Fro Wledig**

Y Bartneriaeth Wledig ym Mro Morgannwg oedd yn gyfrifol am ddarparu gweithgareddau Echel 3 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru ac roedd Grŵp Gweithredu Lleol Cymunedau Gwledig Creadigol yn gyfrifol am gyflwyno rhaglen LEADER Echel 4. Roedd y ddau'n cael eu cyflwyno yn unol â Chynlluniau Busnes a ddatblygwyd yn lleol.

Roedd gan bob Cynllun Busnes ddwy elfen yn ymwneud â chyflawni'r elfen Echel 3 neu elfen LEADER Echel 4:

- Cynllun Busnes 1 ar gyfer 2007-2011[2]
  - Amlinellu nifer o brosiectau/themâu prosiectau o dan Echel 3 a'i gwahanol fesurau[3]:

---

[2] *Rydym yn cydnabod fod oedi neu estyniad gyda dyddiadau dechrau a gorffen pob rhaglen ar wahanol adegau, a bod rhai o weithgareddau Cynllun Busnes 1 wedi mynd y tu hwnt i 2011. Serch hynny, er hwylustod, rydym wedi dangos y cyfnodau fel cyfnodau ar wahân, er eu bod wedi gorgyffwrdd mewn gwirionedd*

[3] *Mae'r mesurau hyn oll yn cyfeirio ar Raglen Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013*

   - Cynllun Grant Twristiaeth yn Cyfrif
   - Cynllun Grant Ysbrydoli
   - Lleoedd i bobl ifanc
   - Prosiect Trafnidiaeth Cymunedol Gwledig/Cysylltiadau Gwyrdd:
   - Llwybrau troed gwledig a'r prosiect Camfeydd
   - Llwybrau Ceffyl Gwledig
   - Rhwydwaith Digwyddiadau Gwledig
   - Rhwydweithio Busnes
- Amlinellu rhagor o brosiectau peilot o dan ddull LEADER Echel 4
   - Twristiaeth Treftadaeth
   - Bwrsariaeth Ysbrydoli'r Fro
   - Cynllun Grant Ymweld â'r Fro+

Mae cyfanswm y gyllideb a'r gwariant terfynol ar gyfer gweithgareddau cynllun busnes 1 i'w gweld yn y tabl canlynol[4]:

| Cynllun Busnes 1 | Cyfanswm y Gyllideb | Gwariant Terfynol | Grant RDP | Cyfatebol | Incwm |
|---|---|---|---|---|---|
| Twristiaeth yn Cyfrif | £505,909 | £498,425 | £309,907 | £188,518 | |
| Cynllun Grant Ysbrydoli'r Fro | £1,106,597 | £1,098,466 | £762,769 | £335,696 | |
| Mannau i Bobl Ifanc | £301,397 | £295,454 | £208,943 | £86,512 | |
| Trafnidiaeth Cymunedol Gwledig/Greenlinks | 232,158 | £184,158 | £143,543 | £38,615 | £2,000 |
| Prosiect Camfeydd | £101,722 | £56,076 | £44,861 | £11,216 | |
| Llwybrau Ceffyl Gwledig | £34,222 | £31,004 | £24,798 | £6,206 | |
| Rhwydwaith Digwyddiadau Gwledig | £43,401 | £43,401 | £34,721 | £8,680 | |
| Rhwydweithio Busnes | £67,579 | £57,832 | £46,266 | £11,655 | |
| Bwrsariaeth Ysbrydoli'r Fro | £135,375 | £131,955 | £105,559 | £26,385 | |
| Ymweld â'r Fro+ | £167,339 | £163,254 | £126,983 | £36,721 | |
| Twristiaeth Treftadaeth | £194,846 | £194,846 | £146,852 | £47,994 | |
| **CYFANSWM** | **£2,890,545** | **£2,754,871** | **£1,955,202** | **£798,109** | **£2,000** |

- Roedd Cynllun Busnes 2 ar gyfer 2011 – 2014. Roedd iddo bwyslais mwy strategol, ac yn:
   - Dewis dynodi pedwar cynllun grant trwy thema 'ymbarél' o dan Echel 3
      - Balchder yn ein Teuluoedd Amaethyddol (helpu i gefnogi mesurau 311, 312, 313)
      - Balchder yn ein Treftadaeth (cefnogi mesurau 312, 313, 323)
      - Balchder yn ein Gwasanaethau (cefnogi mesur 321)
      - Balchder yn ein Pentrefi (cefnogi mesur 322)

[4] *Mae ffigyrrau cyfanswm gwariant a chyllideb Cynlluniau Busnes 1 a 2 yn cynnwys cyfraniad ariannol yr RDP a phob arian cyfatebol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat.*

- Defnyddio dull LEADER Echel 4 i ddatblygu nifer o brosiectau peilot o dan faner 'Balchder yn y Fro'[5]:
  - Twristiaeth araf (10 prosiect peilot)
  - Ymgysylltu cymunedol (tri phrosiect peilot)

Mae cyfanswm y gyllideb a'r gwariant terfynol ar gyfer Cynllun Busnes 1 i'w gweld yn y tabl canlynol:

| Cynllun Busnes 2 | Cyfanswm y Gyllideb | Gwariant Terfynol | Grant RDP | Cyfatebol |
|---|---|---|---|---|
| Balchder yn ein Teuluoedd | £698,977 | £709,205 | £489,157 | £220,048 |
| Balchder yn ein Gwasanaethau | £1,469,479 | £1,469,662 | £999,223 | £470,439 |
| Balchder yn ein Pentrefi | £349,538 | £355,306 | £125,107 | £19,584 |
| Balchder yn ein Treftadaeth | £658,158 | £670,744 | £513,326 | £157,418 |
| Balchder yn y Fro | £761,319 | £764,958 | £609,056 | £155,902 |
| CYFANSWM | £3,937,471 | £3,969,875 | | |

## 2.3 Amcan y Cynlluniau Busnes

Roedd Cynlluniau Busnes 1 a 2 yn gweithio dan yr un set o bump o flaenoriaethau'r Strategaeth Datblygu Lleol, sef:

- creu gallu cymunedol;
- merched a phobl ifanc;
- rhwydweithio a chydweithio rhwng busnesau;
- mynediad at a darparu gwasanaethau;
- gwneud y defnydd gorau o adnoddau lleol

## 2.4 Rheoli a Chyflawni (2007 - 14)

Roedd gan Bartneriaeth Wledig Bro Morganwg (Echel 3) a Grŵp Gweithredu Lleol Bro Morgannwg (Echel 4) orolwg dros y Cynllun Datblygu Gwledig yn y Fro. Roedd aelodaeth o'r byrddau'n dod o'r sectorau preifat, cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol – dull adfywio o'r gwaelod i fyny. Roedd y byrddau'n gyfrifol am ddatblygu strategaethau a darparu prosiectau. Cymunedau Gwledig Creadigol yw menter adfywio wledig Cyngor Bro Morgannwg, a'i rôl oedd cynnig adfywiad gwledig ar ran y Bartneriaeth a'r Grŵp Gweithredu Lleol.

Cafodd Cynlluniau Busnes 1 a 2 eu cyflawni trwy'r strwythur reolaeth hon, gyda'r manylion fel a ganlyn:

- Grŵp Gweithredu Lleol Cymunedau Gwledig Creadigol oedd yn gyfrifol am Echel 4 yn benodol, yn unol â dull a gofynion LEADER.
- Roedd y Bartneriaeth Wledig yn dirprwyo darparu Echel 3 o ddydd i ddydd i Grŵp Gweithredu Leol Cymunedau Gwledig Creadigol, gan gadw gorolwg strategol.
- Roedd Cyngor Bro Morgannwg yn gweithredu fel corff atebol dros Grŵp Gweithredu Lleol Cymunedau Gwledig Creadigol a'r Bartneriaeth Wledig.
- Roedd tîm staff Cymunedau Gwledig Creadigol yn rheoli, darparu a chynnig adnoddau cefnogi ar gyfer gweithgareddau Echel 3 ac Echel 4 o ddydd i ddydd.
- Roedd yr holl strwythur reoli yn cael ei threfnu trwy Femorandwm Cytundeb neu Gytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr holl bartïon dan sylw.

Mae costau gweinyddu'r strwythur reoli hwn dros gyfnod y ddau Gynllun Busnes i'w gweld yn y tabl canlynol. Nid yw'n cynnwys amser tîm Cymunedau Gwledig Creadigol ar brosiectau penodol, gan fod costau hynny

[5] *Roedd Balchder yn y Fro yn cefnogi mesurau 41, 312 a 313 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013)*

wedi'u cynnwys yn y costau prosiectau a nodwyd eisoes. Mae'r costau hyn yn cynnwys elfennau eraill fel rheolaeth ariannol, cyhoeddusrwydd a chyfathrebu, cefnogaeth weinyddol, costau a threuliau cyfarfodydd, hyfforddiant a chostau perthnasol eraill.

| | 2008-2011 | 2012-2014 |
|---|---|---|
| Costau cynnal y Bartneriaeth Leol | £659,343 | £645,557 |
| Costau cynnal y Grŵp Gweithredu Lleol | £252,378 | £242,711 |
| TOTAL | £911,721 | £888,268 |

## 2.5 Gorolwg o ganfyddiadau gwerthusiad lefel rhaglen o Gynlluniau Busnes 1 a 2

Adroddwyd ar werthusiad o Gynllun Busnes 1 ym Medi 2012 a Chynllun Busnes 2 ym mis Gorffennaf 2015. Mae'r canlynol yn crynhoi'r prif bwyntiau o'r ddau.

- Daeth y gwerthusiad o Gynllun Busnes 1[6] i'r casgliad fod:
    - Y rhaglen wedi'i chyflawni'n llwyddiannus gan gwrdd â mwyafrif helaeth yr allbynnau a'r canlyniadau, gan fynd y tu hwnt i nifer
    - Gwelwyd fod un prosiect twristiaeth – Twristiaeth yn Cyfrif (Tourism Matters) - yn arbennig o lwyddiannus yn creu effaith bositif i fusnesau twristiaeth yn y Fro, gan greu dros 6,000 o ymweliadau twristiaeth y flwyddyn a sicrhau cynnydd o tua £145,000 mewn trosiant blynyddol
    - Roedd cyfranogwyr y prosiectau yn bositif am y gefnogaeth a gafwyd
    - Roedd y Bartneriaeth Wledig yn ymddangos yn adnodd defnyddiol iawn ar gyfer cyflawni'r rhaglen RDP. Roedd ganddi aelodaeth eang a nifer yn cymryd rhan ym mhob cyfarfod, a'r holl fynychwyr yn rhyngweithio a chyfrannu
    - Roedd cyfranogwyr prosiectau a'r Bartneriaeth Wledig yn priodoli llawer o lwyddiant y gwahanol brosiectau i waith caled tîm Cymunedau Gwledig Creadigol

Serch hynny:

- Roedd diffyg rheolwr prosiect penodol wedi golygu oedi gyda chynnydd rhai prosiectau oherwydd diffyg gallu i fynd ati i hyrwyddo'r prosiect, neu i ymateb i ymholiadau neu broblemau wrth iddynt godi
- Roedd diffyg data canlyniadau ac effaith gan rai cyfranogwyr fel rhan o'r gwaith cyflawni, mater y byddai angen ei ddatrys yng Nghynllun Busnes 2

[6] *Vale of Glamorgan RDP Business Plan Round 1 Evaluation; Wavehill Ltd for Vale of Glamorgan Rural Partnership, Medi 2012*

### Effeithiol
Cwrdd bron pob targed

### Tîm Gwych
Cefnogaeth eang i Gymunedau Gwledig Creadigol

### Data
Angen mwy o ddata gan gyfranogwyr

## CB1
## Roedd cyfranogwyr prosiectau'n bositif iawn


### Twristiaeth
6,000 ymweliad ychwanegol y flwyddyn

### Partneriaeth
Aelodaeth eang

### Rheolaeth
Angen arweinydd prosiect

- Daeth y gwerthusiad o Gynllun Busnes 2[7] i'r casgliad fod:
  - Gweithgareddau wedi arwain ar agwedd fwy cadarnhaol yn y Fro Wledig a mwy o rwydweithiol, cyfnewid profiadau, cydweithio a chefnogi nag oedd yn bodoli cyn hynny
  - Roedd y Bartneriaeth Wledig yn parhau i gael ei gweld yn rhagweithiol gan randdeiliaid, gydag aelodaeth eang a nifer yn mynychu cyfarfodydd. Gwelwyd y Grŵp Gweithredu Lleol fel partneriaeth dda a bywiog gyda chynrychiolaeth eang. Er fod gan aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol farn wahanol, nododd yr aelodau fod pobl yn gwrando ar ei gilydd, ac yn medru gweld y darlun ehangach
  - Gwelwyd i Falchder mewn Teuluoedd Amaethyddol yn arbennig gael budd economaidd cadarnhaol, gyda derbynwyr grantiau yn gweld y llwybrau arallgyfeirio yn arwain at fudd tymor hir, a modd adeiladu ar hynny yn y dyfodol. Fe'i gwelwyd fel y prosiect Echel 3 oedd a'r ffocws pennaf ar fusnes, gyda chreu swyddi yn rhan o'r meini prawf sgorio a chynyddu trosiant yn un o'i amcanion. Roedd yr allbynnau yn cynnwys creu 23.5 swydd, 13 cynnyrch neu wasanaeth newydd a mynediad at 12 marchnad newydd
  - Roedd y prosiectau peilot a threialon a ddatblygwyd trwy ddull LEADER yn Echel 4 yn datblygu egwyddor o ddarparu gwahanol 'flociau adeiladu' i gefnogi cyfranogiad mewn prosiectau peilot. Gwelwyd hyn fel peth cadarnhaol iawn a rhywbeth y gellid ei ddefnyddio yng ngwaith y Grŵp Gweithredu Lleol a mentrau eraill yn y dyfodol.
  - Roedd cael dwy thema drawsbynciol yn Echel 4 yn cynnig ffocws gwerthfawr. Roedd y cyswllt rhwng rhywfaint o waith peilot Echel 4 a chyflawniad Echel 3 yn cael ei weld yn bwysig – y cyfuniad oedd yn helpu i gynnig gweithgareddau i gefnogi nod Echel 4.

[7] *Evaluation of the RDP in the Vale of Glamorgan 2011 – 2014; Ash Futures Ltd, Gorffennaf 2015*




- Gwelwyd fod Cymunedau Gwledig Creadigol wedi chwarae rôl bwysig yn hwyluso cysylltiadau rhwng prosiectau gafodd eu hariannu trwy raglen y Cynllun Datblygu Gwledig – gan ddod i'r casgliad ei bod yn annhebygol y byddai'r un cysylltiadau a busnesau wedi digwydd hwb ymyrraeth a chefnogaeth Cymunedau Gwledig Creadigol

Serch hynny:

- Tra bod gweithgareddau Cynllun Busnes 2 wedi cyfrannu tuag at weledigaeth, cenhadaeth, nodau a themâu'r Strategaeth Datblygu Lleol, roedd angen cyswllt cliriach yn llifo oddi mewn i'r Strategaeth ei hun lle nad oedd y cyswllt rhwng yr amcanion a'r gweithgareddau mor gryf â hynny
- Nodwyd fod her o ran pa mor bell y gallai gwaith peilot Echel 4 fynd o fewn yr amserlen, gydag awgrym y byddai gwaith dilynol cryfach i atgyfnerthu'r profiad yn fuddiol

## 2.6 Y rhaglen LEADER gyfredol 2014-2020


Mae'r Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer y rhaglen gyfredol yn amlinellu pedair blaenoriaeth:

- PR1 Creu mwy o werth economaidd o'r amgylchedd naturiol a hanesyddol
- PR2 Cael y budd mwyaf o fod yn rhan o Brifddinas-ranbarth Caerdydd
- PR3 Annog busnesau a mentrau cymunedol lleol i ddarparu gwasanaethau lleol
- PR4 Gwella defnydd digidol o fewn busnesau a chymunedau

Roedd tair o'r themâu yn ffocws ar gyfer Cynlluniau Busnes 1 a 2 - PR1, PR3 a PR4. Roedd yr ail flaenoriaeth yn ymateb i lefel uchel o gymuno o'r Fro wledig i Gaerdydd i weithio a'r cyfle i greu mwy o gysylltiadau economaidd a manteisio ar agenda'r prifddinas-ranbarth. Roedd hefyd yn adeiladu ar rai or themâu blaenorol trwy un is-amcan yn benodol – annog mwy o ymwelwyr â Chaerdydd i ddefnyddio'r Fro wledig at ddibenion busnes a phleser.

Ar ôl sefydlu'r blaenoriaethau hyn, cawsant eu trefnu i gyd-fynd â'r bum thema a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni LEADER[8]:

- Y Fro Ddeniadol (Ychwanegu Gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol)
- Labordy Arloesi Busnes (Hwyluso datblygiadau cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr)
- Cymunedau sy'n Esblygu (Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau anstatudol lleol)
- Ynni Cymunedol Gwyrdd (Ynni adnewyddol ar lefel gymunedol)
- Manteisio ar Dechnoleg Ddigidol




Esblygiad blaenoriaethau LEADER yn y Fro wledig

*(mae'r llinellau toredig yn cynrychioli themâu lle nad oes cyswllt clos rhwng y rhaglenni)*

Cyfanswm cyllideb LEADER yn y Fro wledig yw tua £2.2m gydag oddeutu £1.8m yn gyllid Europeaidd trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru a'r gweddill yn arian cyfatebol. Yn y rhaglen hon, cyllideb refeniw yn unig sydd ar gael. Yn wahanol i raglenni blaenorol, nid yw gwariant cyfalaf yn gymwys y tro hwn.

8 *Cafodd teitlau'r themâu eu haddasu'n lleol i fod yn fwy ddas ar gyfer y Fro wledig. Mae teitlau themâu Llywodraeth Cymru yn y cromfachau.*

| | Cyllid Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | Arian Cyfatebol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gweithredu | £1,296,748 | £324,187 | £1,620,935 |
| Bywiocau | £273,000 | £0 | £273,000 |
| Gweinyddu | £182,000 | £0 | £182,000 |
| Cydweithio | £68,249 | £17,063 | £85,312 |
| **CYFANSWM** | **£1,819,997** | **£341,250** | **£2,161,247** |

Yn y rhaglen gyfredol, mae'r gyllideb Gweithredu yn cynnwys costau staff Cymunedau Gwledig Creadigol all fod yn arwain ar weithgareddau prosiect lle caiff prosiectau eu caffael/comisiynu, neu'n cefnogi prosiectau lle mae cyllid yn cefnogi mudiadau eraill i'w harwain.

Hyd yma, mae 36 prosiect wedi cael eu cymeradwyo (Mawrth 2019) ac un ai ar waith neu wedi'u cwblhau. Mae hyn ar draws pum thema'r Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Caiff y rhaglen gyfredol ei thrafod yn fanwl mewn adroddiad Gwerthusiad Canol Tymor ar wahân, a luniwyd ochr yn ochr â'r Adroddiad Gwaddol hwn.

Fel mae'r astudiaethau achos yn Adran 3 yn dangos, mae prosiectau a phobl sydd wedi mynd o raglenni blaenorol i'r un gyfredol. Er enghraifft, mae'r Cowbridge Food Collective a Rhwydwaith Gwneuthurwyr y Fro yn brosiectau yn y rhaglen gyfredol sydd â'u gwreiddiau ym mhrosiectau Cynlluniau Busnes 1 a 2.

Mae gwerthusiad canol tymor o'r rhaglen LEADER gyfredol yn y Fro wledig wedi cael ei gynnal ochr yn ochr â'r adroddiad gwaddol hwn (ac ar gael fel dogfen ar wahân). Mae hwnnw wedi arwain at nifer o gasgliadau. Mae'r rhai mwyaf perthnasol (o ran gwaddol) yn cael eu crynhoi isod, ac rydym wedi'u hanodi i dynnu sylw at rai pwyntiau penodol sy'n berthnasol i'r adroddiad gwaddol hwn:

- Mae gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol enw da iawn ac mae'r rhaglen wedi cael ei rheoli a'i chyflwyno yn broffesiynol iawn. Mae'r tîm wedi manteisio hefyd o fod hyd braich oddi wrth y Cyngor[9]. Mae hyn yn gyson â gwerthusiadau blaenorol.
- Mae gweithgareddau'r prosiect yn cyfrannu'n ddefnyddiol tuag at gyflawni amcanion y SDLl. Dylai hynny felly sicrhau hirhoedledd gweithgareddau a ddechreuodd mewn rhaglenni cynharach.
- Mae atebion arloesol i anghenion datblygu gwledig yn cael eu datblygu yn y Fro, gyda thîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn gyrru hyn i raddau helaeth. Mae hyn yn adeiladu ar waith arloesol trwy LEADER mewn rhaglenni blaenorol lle'r oedd Cymunedau Gwledig Creadigol hefyd yn gatalydd pwysig.
- Ymddengys fod rhwydweithio helaeth yn digwydd ac mae Cymunedau Gwledig Creadigol yn allweddol yn gwneud i hynny ddigwydd. Mae'r perthnasau tymor hir mae tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn eu datblygu yn aml yn bwysicach na'r cyllid ei hun. Mae'n amlwg o'r gwaith gwaddol fod y cysylltiadau hyn yn aml wedi'u datblygu dros nifer o flynyddoedd, a thrwy nifer o gyfnodau o weithgaredd LEADER.
- Mae egwyddorion Leader yn cael eu cyflawni trwy raglen LEADER. Serch hynny, gan fod Cymunedau Gwledig Creadigol bellach yn gyrru llawer o weithgaredd y rhaglen, nid yw mor amlwg yn cael ei yrru gan y gymuned. Serch hynny, mae'n parhau yn rhaglen werthfawr sydd â ffocws leol.
- Mae tystiolaeth dda y bydd nifer o brosiectau'n arwain at effaith gadarnhaol. Efallai na fydd rhai prosiectau'n datblygu y tu hwnt i' cyfnod peilot. Serch hynny, fel mae'r gwaith gwaddol yn dangos, gellir cymryd amser i ddatblygu effaith gadarnhaol, a hynny'n digwydd un cam ar y tro.

[9] *Mae rhai pryderon fod y natur hyd braich yn lleihau rywfaint*




- Mae'r tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi cefnogi integreiddio a dilyniant i raglenni eraill lle bo hynny'n bosibl. Serch hynny, mae rhai o'r farn fod LEADER wedi integreiddio llai â rhaglenni eraill erbyn hyn (yn bennaf gan fod mwyafrif y rhaglenni'n cael eu rheoli'n ganolog) – ac mae gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael mewn rhaglenni eraill. Mae adborth o'n gwaith gwaddol wedi dangos sut mae'r cyswllt rhwng Echel 3 ac Echel 4 wedi bod yn fuddiol mewn rhai achosion. Serch hynny, nid yw'r cyswllt yn bodoli bellach gan nad oes bellach unrhyw gyswllt lleol uniongyrchol â mesurau eraill Cynllun Datblygu Gwledig Cymru y tu hwnt i LEADER.

Serch hynny:

- Mae angen mwy o waith codi ymwybyddiaeth fod y gefnogaeth yn waith LEADER yn benodol, yn hytrach nad yn waith Cymunedau Gwledig Creadigol yn gyffredinol (gan mai rhaglen LEADER sy'n bennaf yn ariannu costau staff Cymunedau Gwledig Creadigol).
- Mae diffyg ymgysylltu eang â'r gymuned fusnes yn y rhaglen gyfredol. Nid yw hynny yn sgil sut mae'r Grŵp Gweithredu Lleol / Cymunedau Gwledig Creadigol wedi cyflwyno'r rhaglen, ond yn adlewyrchu'r modd y mae rhaglen gyfredol LEADER bellach wedi'i threfnu yng Nghymru.
- Byddai mwy o ffocws ar gefnogi cynaliadwyedd/prif-ffrydio yn fanteisiol. Mae'n bwysig cydnabod fod risg fod gormod o'r gallu wedi'i ganolbwyntio o fewn tîm Cymunedau Gwledig Creadigol – wedi'i gefnogi gan gyllid LEADER ar hyn o bryd – ac yn ddibynnol ar ei ddyfodol. Efallai, wrth edrych yn ôl, gallai'r ffocws ar greu gallu cymunedol – amcan yn y SDLl yn y rhaglen flaenorol – fod wedi'i gadw'n amlycach.
- Mae'r drefn casglu data yn gadarn. Serch hynny, nid yw'r dangosyddion yn ddefnyddiol i fesur effaith. Byddai'n werthfawr gweld mwy ar ganlyniadau ac effaith. Mae ein gwaith ar waddol yn adlewyrchu gwerth mwy o fesur effaith hydredol os gellir gwneud hynny, er ein bod yn sylweddoli fod hyn yn anodd o ystyried faint o'r rhaglen sydd ar ôl gyda'r ffocws yn parhau ar gyflawni.

## 2.7 Casgliad

Mae gwaddol hir, cryf a chyson o ddatblygu economaidd gwledig yn cael ei arwain gan y gymuned, ac wedi'i gefnogi gan gyllid datblygu gwledig yr UE yn y Fro wledig, gyda Chymunedau Gwledig Creadigol – adnodd y tîm, y Grŵp Gweithredu Lleol a Cyngor Bro Morgannwg fel y corff gweinyddol – yn ganolog i hyn. Mae defnyddio cyllid LEADER i fynd ar ôl gweithgaredd mwy arloesol a gwaith peilot hefyd wedi bod yn nodwedd gyson, yn arbennig yng Nghynllun Busnes 2.

Mae'r gallu i gynnig cyllid yn uniongyrchol i gyfranogwyr hefyd wedi bod yn nodwedd bwysig o'r rhaglenni cynharach. Roedd gan Gynllun Busnes 2 yn arbennig gyswllt da rhwng gweithgareddau peilot LEADER ac Echel 3 oedd yn cynnig cyfle i gael mwy o grantiau uniongyrchol i gyfranogwyr i barhau â gwaith peilot LEADER. Gwelwyd y themâu prosiect oedd yn cynnwys cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau fel y gweithgareddau oedd yn arwain at yr 'effaith' fwyaf mewn termau economaidd.

## 3 Astudiaethau achos – mapio gwaddol a naratif i gyd-fynd â hynny

Fel y nodwyd eisoes, elfen graidd o'r adroddiad waddol yw amlinellu nifer o astudiaethau achos sy'n dangos sut mae rhaglen LEADER wedi cefnogi busnesau, unigolion a chymunedau ar wahanol adegau yn ystod eu 'taith'. Nod yr astudiaethau achos oedd dangos sut mae ychydig o gefnogaeth wedi helpu i gychwyn gweithgareddau sydd wedi parhau a thyfu dro amser. Maent yn cael eu hamlinellu isod. Mae'r llinell amser yn enghreifftiol, yn hytrach nac yn cynnwys popeth.

## OUT TO LEARN WILLOW - astudiaeth achos

Mel Bastier (dylunydd graffeg) a Clare Revera (athrawes) sefydlodd Out to Learn Willow yn y lle cyntaf fel busnes hobi, yn rhedeg ochr yn ochr â'u prif swyddi, gan gychwyn wrth gynnal cyrsiau dydd ar wehyddu helyg. Yna, penderfynodd Mel a Clare fynd yn rhan amser yn eu swyddi a sefydlu Out to Learn Willow ymhellach fel busnes. Roeddent yn chwilio am nawdd pan ddaethant yn ymwybodol o Cymunedau Gwledig Creadigol am y tro cyntaf.

### Y prosiectau cyntaf

Roedd Mel a Clare am gynnal rhagor o gyrsiau a chyrsiau hirach. Byddai hynny hefyd yn denu ymwelwyr i'r Fro gan ddefnyddio llety lleol. Yn benodol, roeddent am gynnal cwrs preswyl ar gyfer gwneud eirch. Ar ôl cael cymorth gan Gymunedau Gwledig Creadigol i ddatblygu'r syniad yn gais am arian, cafodd Mel a Clare grant o £9272, o Gynllun Busnes 1 a chyllid LEADER prosiect Ymweld â'r Fro+. Roedd hyn yn eu galluogi i ddatblygu'r busnes a gweithio arno'n llawn amser.

Yna, cawsant grant llai o £270 fel rhan o brosiect peilot Gweithgareddau'r Arfordir. Galluogodd y cymorth hwn, trwy Gynllun Busnes 2 LEADER a phrosiect peilot Twristiaeth Araf, iddynt brynu offer bach a chymorth ymgynghorol gan wneuthurwr basgedi o Fryste. Fe'u helpodd hefyd i ddysgu'r cwrs cyntaf ar safle Coed y Mynach ger y Wig.

### Gwaddol o'r prosiectau cyntaf

Ers y dechrau hwnnw, mae Out to Learn Willow wedi ehangu ei weithdai a'i weithgareddau, gan ddarparu cyrsiau helyg byw a sych i oedolion, plant a phobl ifanc. Bydd hefyd yn dysgu technegau ac yn gwneud basgedi Cymreig traddodiadol, cynllunio ac adeiladu strwythurau a cherfluniau ar gyfer ysgolion, gerddi ac ardaloedd cymunedol, ac yn gwneud gwaith pwrpasol ar gomisiwn.

Mae'r cyrsiau bellach yn cynnwys cyrsiau uwch ac achrededig ledled Cymru a'r DG, gyda'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cyrsiau yn mynd mlaen i sefydlu eu busnesau eu hunain; megis Hatton Willow, Seven Willow, West Wales Willow, Nortimer Willow. Maent hefyd yn Ymarferwyr Creadigol ar gyfer Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae 'Out to Learn Willow' yn parhau i ffynnu. www.outtolearnwillow.co.uk



### Datblygiadau ehangach yn deillio o'r prosiectau cyntaf

Mae rhagor o weithgaredd hefyd wedi deillio o'r cymorth cychwynnol. Mae Clare a Mel ill dwy wedi mynd ymlaen i sefydlu eu busnesau unigol eu hunain (ynghyd â pharhau ag Out to Learn Willow). Mae Clare wedi sefydlu 'Welsh Baskets' – gan ddysgu sgiliau gwneud basgedi ledled y wlad - www.welshbaskets.co.uk. Sefydlodd Mel Lily Willow coffins (mewn partneriaeth â Sarah Hatton, sydd hefyd yn gwehyddu helyg), gan ddarparu eirch a blychau lludw helyg i archeb.

Mae Clare bellach yn adnabyddus fel gwehydd helyg ac mae'n dysgu ac yn arddangos yn rheolaidd yn Urdd Gwneuthurwyr Cymru a mannau eraill yn y DG. Eleni (2019) hefyd, bydd yn dysgu yn yr UDA. Mae'n derbyn gwaith comisiwn, e.e. basgedi i gyflwyno'r adran blanhigion yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae Mel hefyd yn adnabyddus fel gwehydd helyg ac yn dysgu'n rheolaidd ac yn arddangos cerfluniau helyg yng Ngerddi Botaneg Cymru, ar safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a mannau eraill ledled y DG. Cymerodd Clare brentis yn 2017 gan ei hyfforddi nes ei bod hithau bellach yn medru dysgu gweithdai. Mae Mel yn cyflogi staff tymhorol ar gyfer digwyddiadau ac i helpu gyda rhai cerfluniau.

Bu Clare hefyd yn ymwneud â gŵyl 'pop-yp' am bythefnos, a drefnwyd gan Gymunedau Gwledig Creadigol gyda nawdd LEADER a Chymunedau'r Arfordir yn 2016, i brofi'r potensial ar gyfer cynnal digwyddiadau ym Mae Dwn-rhefn ar Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Roedd yr ŵyl yn cynnwys diwrnod a gweithdy crefftau ar yr arfordir, lle bu Clare Revera yn cynnal gweithdy gwehyddu helyg fel un o bedwar artist/gwneuthurwr a drefnodd y digwyddiad.



Amlinellodd yr ŵyl grefftau'r angen am rwydwaith grefftau yn y Fro (Rhwydwaith Gwneuthurwyr y Fro) i annog rhwydweithio rhwng crefftwyr, datblygu cyfleoedd gwerthu, arddangos, dysgu ac addysgu. Datblygwyr prosiect peilot Rhwydwaith Grefftau'r Fro trwy Gymunedau Gwledig Creadigol a gyda chymorth ariannol gan LEADER. Mae'r rhwydwaith wedi bod ar waith ers blwyddyn neu ddwy. Mae'r amcanion yn cynnwys hyrwyddo cynnyrch ar y cyd yn y Fro a chreu rhwydwaith o gyd-gefnogi.

Mae gŵyl 2019 yn cael ei chynnal dros bythefnos ym Medi 2019 ac yn cael ei hyrwyddo fel Gŵyl Gwneuthurwyr y Fro 2019. Bydd yn cyd-fynd â lansio eu gwefan.

> *"Roedd cefnogaeth Cymunedau Gwledig Creadigol a'r cyllid cysylltiedig yn allweddol trwy wahanol gamau datblygu'r busnes. Roedd cefnogaeth a chyllid Cymunedau Gwledig Creadigol yn drobwynt llwyr i'n taith. Heb hyn, fydden ni heb wneud dim o'r gwaith i adeiladu Out to Learn Willow gan ei fod yn gam anferth o swydd lawn amser i sefydlu a gweithio yn ein busnes. Roedd y grant yn gatalydd i'n galluogi i gymryd y cam. Pe byddem wedi mynd ati heb y cymorth, byddai wedi cymryd yn llawer iawn hirach.*
>
> *Yn fwy diweddar, mae cefnogaeth Cymunedau Gwledig Creadigol wedi bod yn allweddol ar gyfer sefydlu'r Ŵyl Grefftau. Helpodd Cymunedau Gwledig Creadigol i'w sefydlu yn y camau datblygu cynnar a'n helpu'n ymarferol gyda gwybodaeth a help i logi gasibos ar gyfer digwyddiadau, marchnata ac ati."*
>
> Clare Revera (Out to Learn Willow)

## SIAN BASSETT-ROBERTS - astudiaeth achos

### Cefndir

Cychwynnodd Sian Coginio i hyrwyddo bwyd a chynhyrchwyr bwyd Cymreig. Roedd Sian am greu DVD i hyrwyddo bwyd Cymreig, ond yn sylweddoli y byddai angen mwy i droi ei diddordeb yn syniad busnes.

### Y prosiect cyntaf

Daeth prosiect cyntaf Sian gyda Chymunedau Gwledig Creadigol yn 2010 pan gafodd grant o £9181 i gefnogi sefydlu Coginio, a ddefnyddiwyd i hyrwyddo cyrsiau coginio penwythnos yng Ngwesty'r Fro ac i brynu offer ar gyfer gweithdai symudol. Roedd hyn yn cysylltu cyrsiau coginio gydag aros dros nos. Roedd y cyrsiau yn eu hanfod yn arddangos cynnyrch a ryseitiau Cymreig. Daeth y grant trwy Gynllun Busnes 1 a'i gyllid LEADER ar gyfer menter Ymweld â'r Fro+

### Gwaddol o'r prosiect cyntaf

Ar ôl trafferth i gael niferoedd digonol ar y cyrsiau cynnar, estynnodd Sian ei syniadau i gynnal gweithdai ledled y Fro a datblygu oddi yno i deithiau bwyd – arweiniodd at ei phrosiect nesaf gyda Chymunedau Gwledig Creadigol.




**Datblygiadau ehangach o'r prosiect cyntaf**

Roedd Sian am ymestyn y busnes i deithiau bwyd – teithiau cerdded a blasu. Felly yn 2013 cafodd ragor o gyllid trwy Gynllun Busnes 2 (£1996), a'r prosiect Pencampwyr Bwyd Lleol a gefnogwyd â chyllid LEADER, i sefydlu Safaris Bwyd yn y Fro wledig. Y bwriad oedd cyflwyno bwyd a did y Fro i ymwelwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Roedd teithiau diwrnod cyfan, hanner diwrnod ac wedi'u llunio'n arbennig yn galluogi ymwelwyr i ymweld ag amrywiaeth i leoliadau i flasu gwahanol fwyd a diod a chlywed y straeon y tu cefn ir cynnyrch.

Ers hynny, mae Sian wedi mynd mlaen i dyfu'r busnes, sydd bellach wedi'i ail-frandio fel 'Loving Welsh Food'. Mae'n cynnig amrywiaeth o deithiau bwyd yng Nghaerdydd a'r Fro, yn cynnwys teithiau wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau preifat, ynghyd â gweithdai bwyd Cymreig a sgyrsiau a sesiynau blasu bwyd Cymreig. Mae hyn yn helpu i greu dealltwriaeth yng Nghaerdydd am yr hyn sydd gan Fro Morgannwg i'r gynnig, gan fod ei theithiau yn cynnwys cynhyrchwyr bwyd yn y Fro wledig. (www.lovingwelshfood.uk).

Enwyd teithiau Loving Welsh Food fel 'Gweithgaredd Gorau Cymru' yng Ngwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru yn 2018.




COGINIO

Loving Welsh Food

**Sian Bassett-Roberts**

Arweinydd Teithiau, cynhyrchwr a hyrwyddwr bwyd ers 2010

*"Roedd y cymorth a'r cyllid a gefais gan Gymunedau Gwledig Creadigol yn ysgogiad. Rhoddodd i mi'r hyder fod gan eraill ffydd yn y syniad. Wedi buddsoddi llawer o amser a rhywfaint o arian, roedd y cyllid ychwanegol yn bwysig iawn. Er nad oedd cost yr offer yn anferth, heb gyllid LEADER, efallai na fyddwn wedi parhau â'r prosiect. Roedd cefnogaeth Cymunedau Gwledig Creadigol trwy'r broses ymgeisio yn hanfodol. Heb y cymorth hwnnw, byddai'r broses wedi bod yn un boenus, a heb eu cymorth, efallai na fyddwn wedi mynd trwy'r broses o gwbl."*

Sian Bassett-Roberts (Loving Welsh Food)

## MYFANWY EDWARDS - astudiaeth achos

Sefydlodd Myfanwy Edwards Farchnad Ffermwyr y Fro yn y Bontfaen yn 2001. Mae'n ffarmwraig a chynhyrchwraig leol. Mae Fferm Pwllywrach ger y Bontfaen yn cynhyrchu cig eidion, ac mae Myfanwy hefyd yn berchen ar Artisan Cakes, gan wneud cacennau ar gyfer achlysuron arbennig.

### Y prosiect cyntaf gyda Chymunedau Gwledig Creadigol: Neuadd Fwyd Leol yn Sioe y Fro

Daeth y prosiect cyntaf yn sgil dymuniad i gael cynnyrch lleol yn Sioe Flynyddol Bro Morgannwg, gan nad oedd hynny'n bod cyn hynny. Yn sgil cyfeiriad gan Cywain (y mudiad a sefydlwyd i ychwanegu gwerth trwy gydweithio ymysg cynhyrchwyr bwyd) i Gymunedau Gwledig Creadigol aeth Myfanwy, gyda chefnogaeth gan Gymunedau Gwledig Creadigol, at Bwyllgor y Sioe i holi am ardal fwyd ar gyfer cynnyrch lleol. Cafodd ei gynnwys yn Sioe y Fro yn 2014 am y tro cyntaf, wedi'i hwyluso gan grant LEADER ar gyfer costau llogi pabell a chostau'r stondinau ar gyfer digwyddiad 2014. Darparwyd y grant trwy Gynllun Busnes 2: Balchder yn y Fro – prosiect Pencampwyr Bwyd Lleol.

Yn yr un flwyddyn, cafodd Marchnad Ffermwyr y Fro ei chynrychioli ym Mharêd Ceirw'r Bontfaen – digwyddiad adeg y Nadolig bob blwyddyn – am y tro cyntaf.

### Gwaddol o'r prosiect cyntaf

Mae Myfanwy wedi mynd mlaen i drefnu'r neuadd fwyd yn Sioe y Fro bob blwyddyn ers hynny. Ar y cychwyn, ni chai cynhyrchwyr lleol werthu unrhyw beth y gellid ei fwyta ar unwaith, dim ond cynnyrch i fynd gyda hwy. Mae hynny wedi newid erbyn hyn, ac mae modd gwerthu cynnyrch i'w fwyta ar y safle, er bod hynny'n dal yn gyfyngedig. Mae'r Neuadd Fwyd wedi mynd o nerth i nerth. Mae'n mynd ers 6 mlynedd a chafwyd 58 cais am 40 stondin eleni. Rhoddir blaenoriaeth i aelodau Marchnad Ffermwyr y Fro neu'r Cowbridge Food Collective; ac yna ar ba mor lleol yw'r cynhyrchwyr.




Mae Neuadd Fwyd Sioe y Fro yn boblogaidd iawn erbyn hyn, ac mae Myfanwy wedi llwyddo i gael nawdd i helpu gyda'r costau. Mae hynny wedi gwneud costau mynychu'n fwy rhesymol i gynhyrchwyr, e.e. byddai cost pob stondin eleni yn £200 ond roedd y nawdd wedi gostwng hynny i £60.

**Ymestyn o Farchnad Ffermwyr y Fro: Cowbridge Food Collective**

Ar wahân i (ond yn gysylltiedig â) gweithgareddau Sioe y Fro, roedd Myfanwy hefyd yn ymwybodol nad oedd teuluoedd yn dod i Farchnadoedd Ffermwyr y Fro yn y Bontfaen a Phenarth gan ei bod yn anodd cyrraedd atynt ar ddydd Sadwrn.  Bu'n ystyried cael fersiwn ar-lein o'r farchnad Ffermwyr ers tua 5 mlynedd, ond roedd angen sefydlu strwythur ar wahân i'r Farchnad Ffermwyr i hynny ddigwydd.

Hwylusodd y rhaglen LEADER gyfredol brosiect peilot i sefydlu hyn. Syniad Myfanwy oedd cysylltu â strwythur oedd yn bodoli (rhwydwaith Cynulliad Bwyd yr UE) ac aeth at Gymunedau Gwledig Creadigol gyda syniad peilot, gafodd ei gymeradwyo. Sefydlwyd Cynulliad Bwyd y Bontfaen (Cowbridge Food Assembly) gyda chyllid LEADER i gefnogi costau cychwynnol fel llogi ystafell (ar gyfer casglu bwyd bob wythnos) a deunydd hyrwyddo.

Serch hynny, tua 6 mis yn ôl ac ar ôl bod yn gweithredu am nifer o fisoedd, tynnodd Cynulliad Bwyd yr UE yn ôl o weithredu yn y DG. Penderfynodd Myfanwy fynd ati ei hun a sefydlu'r Food Collective. Roedd hynny'n golygu rhagor o gostau na allai Cymunedau Gwledig Creadigol eu hariannu e.e. roedd angen ail-wneud y baneri gyda'r enw newydd; ac roedd angen sefydlu gwefan e-fasnachu i alluogi i gwsmeriaid archebu ar-lein. Defnyddiodd ei harian ei hun i wneud hynny. Er ei bod yn teimlo fod y buddsoddiad wedi llwyddo, gan iddo alluogi i'r Food Collective barhau i weithredu, roedd yn heriol ac yn rhywbeth ned oedd wedi'i ragweld.



### Canlyniadau'r Cowbridge Food Collective

Mae gan y Food Collective bellach 20 o gynhyrchwyr/aelodau ac ystod eang o gynnyrch. Mae'r cynhyrchwyr oll wedi'u lleoli o fewn 40 milltir i'r Bontfaen. Daw'r cwsmeriaid o gyn belled â'r Barri a Phen-y-bont. Rhoddir archebion ar-lein a daw'r cwsmeriaid i'w casglu bob dydd Iau o ysgol y Bontfaen lle maent yn llogi ystafell. Mae'r archebion yn cau ar ddydd Mawrth, fel bod pob cynhyrchwr yn gwybod yn union beth sydd angen ar gyfer casglu ar ddydd Iau, rhwng 5-7pm. Felly nid oes unrhyw wastraff. Yn ôl Myfanwy mae cwsmeriaid fel rheol yn casglu fel rhan o deithiau eraill, e.e. nôl plant o'r ysgol neu ar y ffordd o'r gwaith. Mae'r Food Collective yn helpu i leihau milltiroedd bwyd, lleihau gwastraff, lleihau pecynnu a'r cwbl yn gynnyrch lleol. Daw'r holl gynhyrchwyr yno ar ddydd Iau os oes ganddynt archebion, sy'n rhoi cyfle i gwsmeriaid a chynhyrchwyr ryngweithio. Mae Myfanwy yn ymwybodol fod bod yn rhan o'r farchnad ffermwr a'r Food Collective wedi bod yn fodd i rai busnesau gychwyn; ac mae ganddynt flaenoriaeth i gael stondin yn Sioe y Fro.

> *"Heb y gefnogaeth gychwynnol gan Gymunedau Gwledig Creadigol i fynd at Bwyllgor Sioe y Fro am ddarparu cynnyrch lleol, a'r cymorth ariannol a ddaeth wedyn ar gyfer y neuadd fwyd lleol gyntaf yn y Sioe, yn syml, fyddai'r neuadd fwyd lleol yn Sioe y Fro heb ddigwydd. Yn yr un modd, ni fyddai'r Cowbridge Food Collective wedi cael ei sefydlu heb gymorth ariannol trwy Cymunedau Gwledig Creadigol gan ei bod yn fenter arbrofol. Mae cefnogaeth Cymunedau Gwledig Creadigol ar adegau allweddol ar hyd y daith wedi bod yn allweddol."*
>
> Myfanwy Edwards (Cowbridge Food Collective)

## TOMOS A LILFORD - astudiaeth achos

Sefydlwyd bragdy Tomos a Lilford gan Rolant Tomos a Rob Lilford yn sgil eu brwdfrydedd am fragu gwahanol gwrw. Fel gydag unrhyw fusnes newydd, dechreuodd heb fawr o adnoddau, gydag ychydig o arian ac offer wedi'i fenthyca. Mae'r busnes wedi tyfu'n organig ers hynny, wedi'i reoli'n ofalus gan Rolant a Rob.

**Y prosiect cyntaf gyda Chymunedau Gwledig Creadigol:** Cefnogaeth gyda Brandio

Roedd y busnes yn cydnabod fod angen datblygu brand proffesiynol i helpu'r busnes a'r cynnyrch i sefydlu mewn marchnad gwrw lawn. Aeth at Gymunedau Gwledig Creadigol am gymorth a chael grant o £2,000 i weithio ag asiantaeth frandio. Roedd hynny'n galluogi'r busnes i gael cymorth proffesiynol oedd yn ddefnyddiol iawn ar y pryd. Lansiwyd y brand tua 5 mlynedd yn ôl mewn tafarn leol.


Mae'n debyg y byddai'r busnes wedi mynd ati gyda'r brandio ei hun, ond ni fyddai'r ansawdd gystal a byddai'n rhaid bod wedi edrych arno eto fyddai wedi golygu costau.

### Gwaddol o'r prosiect cyntaf

Galluogodd y gefnogaeth broffesiynol i'r busnes sefydlu brand amlwg a phresenoldeb marchnata yn gyflym. Fe'u galluogodd i arddangos eu cynnyrch mewn digwyddiadau fel digwyddiad Synnwyr o Le, a sefydlwyd gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Derbyniodd y busnes archebion trwy'r digwyddiad, oedd yn ddefnyddiol yn gynnar yn ei ddatblygiad. Roedd hefyd yn eu galluogi i fanteisio ar farchnadoedd ffermwr lleol a digwyddiadau penodol eraill. Daeth y brand yn adnabyddus yn gyflym, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar y gwaith a'r cynnyrch.

### Tyfu'r Busnes

Mae'r busnes yn parhau i dyfu – symudodd i safle newydd yn Llandŵ, oedd yn caniatáu cynyddu cynhyrchiant o 350 litr i 700 litr. Gyda chynlluniau i ymestyn ymhellach i 3,000 litr dros y blynyddoedd nesaf, gall y busnes fod mewn sefyllfa lle bydd angen chwilio am safle arall eto. Mae'r busnes yn cydnabod y bydd angen cyllid pellach i alluogi ehangu'r busnes, ac y gallai nawdd fod yn rhan o'r cyllid hwnnw. Mae'r busnes wedi cyflogi rhywun am y tro cyntaf yn ddiweddar, ac mae'n parhau i ymestyn y safleoedd y mae'r cynnyrch yn cael ei werthu. Caiff ei werthu i ddelis lleol, caffis ac ati, mewn lleoliadau ledled Cymru ac mewn ardaloedd fel Bryste, Caerloyw a Llwydlo. Maent wedi sefydlu perthynas fasnachol gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.




Bragdy'n gwerthu ledled Cymru
ac yn chwilio am safle newydd i gynyddu cynhyrchiant a chyflogaeth

2019

Bragdy'n cynnal digwyddiad Cymunedau Gwledig Creadigol
"Gweithdai Blwyddyn . . .

Safle Newydd yn Llandŵ
Cynyddu cynhyrchiant; siop boteli a digwyddiadau newydd

Cwrw'n cael ei stocio'n lleol
mewn bariau, caffis a delis

Cynnyrch â brand newydd
yn cael ei werthu mewn Marchnad Ffermwydd a digwyddiadau eraill

Derbyn grant Cymunedau Gwledig Creadigol
Pencampwyr Bwyd Lleol – ar gyfer brandio a datblygu gwefan

Arddangos cynnyrch
Yn nigwyddiad Synnwyr o Le Cymunedau Gwledig Creadigol

2015

tomos a lilford

**Tomos a Lilford**
bragdy hobi yn gweithredu o safle bach

Maent yn agor y bragdy yn rheolaidd ar gyfer digwyddiadau (digwyddiadau Cymunedau Gwledig Creadigol o bryd i'w gilydd) a siop boteli, gan fod yn fwy amlwg yn lleol.

Trwy'r broses o dwf organig, mae'r cyswllt rhwng tîm Cymunedau Gwledig Creadigol a'r busnes wedi parhau. Mae tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi ceisio helpu'r busnes mewn sawl ffordd, trwy helpu i chwilio am safle a chyswllt cynllunio, gwahoddiadau i ddigwyddiadau lleol ayb.

*"Galluogodd y cymorth ariannol cychwynnol gan Gymunedau Gwledig Creadigol i ni sefydlu ein brand yn gyflymach ac yn fwy proffesiynol, gan alluogi i ni farchnata ein cynnyrch newydd. Mae'r busnes yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o godi ymwybyddiaeth o'r cynnyrch, ac mae'r brand wastad yn ganolog i'r gweithgareddau. Mae tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn parhau i chwilio am gyfleoedd i helpu'r busnes, gan ein gwneud yn ymwybodol o ddigwyddiadau lle gallwn arddangos ein cynnyrch a chysylltu â chynhyrchwyr bwyd a diod eraill. Mae hyn yn arbennig o werthfawr i fusnes bach."*

Rob Lilford (Bragdy Tomos a Lilford)

# LLANBEDR Y FRO - astudiaeth achos

Mae Llanbedr y Fro yn bentref gwledig bach ym Mro Morgannwg. Mae'r pentref wrth afon Elai, saith milltir o Gaerdydd. Er ei fod yn agos at Gaerdydd, mae'r bentref mewn ardal wledig arunig, mewn cwm serth gyda ffyrdd cul. Mae gan y pentref wasanaethau lleol yn cynnwys ysgol gynradd, neuadd bentref, tafarn, swyddfa bost a garej. Mae gan y pentref gyngor cymuned gweithgar.

## Y prosiect cyntaf gyda Chymunedau Gwledig Creadigol: Gwelliannau i'r Neuadd Bentref

Y prosiect cyntaf oedd gwella'r neuadd bentref, gan ganolbwyntio ar y llawr a'r goleuadau. Trwy'r gwelliannau, mae rhagor o ystafelloedd ar gael, a rhagor yn cael eu gosod a'u defnyddio. Cafodd y gwelliannau eu hariannu ar y cyd rhwng cyllid y pentref ei hun a chyllid Echel 3. Mae'r neuadd bentref bellach yn gyfleuster cymunedol sy'n cael ei redeg yn dda sydd wedi symud o wneud colled fach i elw bach, gan ei roi mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol. Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn y neuadd yn cynnwys clybiau chwaraeon (badminton), clwb ieuenctid, sinema, grŵp chwarae a marchnad ffermwyr. Gellir llogi'r neuadd ar gyfer digwyddiadau preifat hefyd. Defnyddiwyd cyllid LEADER i gynnal awdit ynni proffesiynol a roi cyngor ar y gwelliannau priodol.

## Gwaddol o'r prosiect cyntaf

Gyda sylfaen gref, adeiladodd y gymuned ar y cyfleuster trwy ddatblygu sinema cymunedol. Gan dreialu'r galw'n ofalus (trwy holiadur, a benthyg offer) gwelwyd fod galw am fwy o adloniant cymunedol – ac fe anwyd y sinema gymunedol. Yn 2012, cafwyd grant i gael bleindiau atal golau, ac yna grant i gael cadeiriau ac uchelseinyddion yn 2013 ac yn olaf sgrîn drydan, taflunydd HD a chwaraewr DVD. Yn 2013 gwariwyd cyfanswm o £6,000 mewn grantiau ac arian cyfatebol ar y sinema cymunedol. Daeth y grŵp yn rhan o'r cynllun peilot sinema cymunedol, gan eu helpu i gwrdd ag ardaloedd eraill i ddysgu am arfer da a rhannu offer. Mae'r cadeiriau hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau'r neuadd bentref ac wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

Mae'r sinema yn cael cefnogaeth dda yn lleol, gyda rhwng 20-50 o bobl yn dod i bob digwyddiad, ac yn talu'r costau bob tro. Derbyniodd wobr (£1,000 gan wobr Film Bank Audience) ac mae'n rhwydweithio ar draws y sir trwy rwydwaith Sinema'r Fro a Chanolfan Ffilm Cymru. Mae'r dafarn leol yn darparu bar yn y digwyddiadau. Mae'r sinema'n cynnal 'clwb ffilm' i'r ysgol gynradd a chaiff ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau codi arian – e.e. y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn cynnal noson ffilm i godi arian tuag at yr ysgol. Mae'r sinema'n cynnig canolfan gymunedol, yn enwedig i'r gymuned sy'n ei chael yn anoddach teithio ac wedi ymddeol, sy'n llai tebygol o fynd i sinemâu eraill.

## Ymestyn o'r Neuadd Bentref


Yn ogystal â datblygiadau'r neuadd bentref, mae Llanbedr y Fro wedi bod wrthi'n denu cyllid gan Gymunedau Gwledig Creadigol a nifer o ffynonellau eraill i wella cyfleusterau cymunedol, yn cynnwys:

- Menter cludiant cymunedol Greenlinks, sy'n cyflogi gyrwyr bysiau mini i ategu'r rhwydwaith fysiau leol a mynd â thrigolion llai annibynnol i siopa, apwyntiadau ysbyty ac ati.
- Awdit ynni i'r neuadd bentref trwy LEADER – gan eu galluogi i wneud cais am gyllid Echel 3
- Perllan Gymunedol (gyda chefnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)
- Cyrtiau aml-ddefnydd – ailwampio'r cyrtiau tennis gyda chefnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol, Chwaraeon Cymru

Er nad yw'r cyngor yn dal i gynnal y cynllun pentref taclusaf, mae'r pentref yn parhau i weithio i gynnal a chadw'r pentref trwy amser gwirfoddol a rhoddion. Roedd angen llawer o waith gan wirfoddolwyr i'r cynllun lwyddo. Mae cefnogaeth LEADER and Chymunedau Gwledig Creadigol wedi bod yn allweddol i ddatblygiadau'r pentref, ond nid yw hynny wedi gweithio heb y seilwaith cymunedol, a'r ysgol leol a chefnogaeth gwirfoddolwyr yn arbennig.

> *"Fel cymuned, rydym yn canmol ac yn cefnogi'r cymorth a gawsom gan Gymunedau Gwledig Creadigol dros y blynyddoedd, ac wedi gweld y tîm yn barod iawn i helpu ac yn agored. Heb y cyllid grant craidd a gawsom gan Gymunedau Gwledig Creadigol a LEADER, fyddai dim o'r prosiectau wedi digwydd. Mae cymorth gan Gymunedau Gwledig Creadigol a Cyngor Bro Morgannwg wedi galluogi i'n pentref gan arian ychwanegol o ffynonellau eraill."*
>
> Ian Pearson (ar ran Llanbedr y Fro)

Mae'r 'map' isod yn dangos ystod y gweithgareddau sydd wedi deillio o gefnogaeth gychwynnol y tair rhaglen LEADER.



# ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG – astudiaeth achos

### Y Cefndir

Mae dyhead wedi bod ers amser trwy raglenni datblygu gwledig, i fanteisio mwy ar gyfleoedd Arfordir Treftadaeth Morgannwg – asedau'r tirwedd ffisegol a'r cyfleoedd maent yn eu cynnig i ddatblygu'r economi gwledig. Mae holl gyfnodau'r cyllid LEADER felly wedi rhoi fframwaith ar gyfer dilyn gwahanol gyfleoedd datblygu'r economi gwledig. Er eu bod yn weithgareddau gwahanol, gyda'i gilydd, maent yn cynrychioli dilyniant yn gwireddu potensial Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

### Y Dilyniant

Daeth y gefnogaeth gyntaf trwy Gynllun Busnes 1 a gweithgaredd Ymweld â'r Fro+. Roedd hyn yn cefnogi mentrau twristiaeth newydd gan brofi prosiectau cyn mynd yn fasnachol – e.e. Ysgol Syrffio Southerndown. Cynhaliwyd rhaglen fwrsariaeth 'Ysbrydoli'r Fro' i gefnogi pobl ifanc i sefydlu busnesau. Una dderbyniodd gefnogaeth oedd Cegin a Deli 'Cobbles', ger Aberogwr.

Roedd gan Gynllun Busnes 2 ffocws ehangach gan gymryd yr Arfordir Treftadaeth fel thema benodol, trwy'r prosiect Twristiaeth Araf o dan thema 'Balchder yn y Fro'. Roedd Twristiaeth Araf yn ceisio cydlynu darpariaeth ar draws atyniadau/lleoliadau ar hyd yr arfordir a cheisio annog pobl i ymweld ag ardaloedd sy'n cael llai o ymwelwyr a'u treftadaeth. Roedd gan Twristiaeth Araf nifer o elfennau.

Arfordir Treftadaeth yn benodol:

- Gweithgareddau Synnwyr o Le Arfordir Treftadaeth: Cefnogaeth i fudiadau sy'n denu ymwelwyr i ddatblygu eu synnwyr o le i gefnogi dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ymwelwyr o ardal yr Arfordir Treftadaeth.
- Prosiect peilot gwersylla ar yr arfordir: Roedd y prosiect peilot Gwersylla Perffaith yn treialu cynorthwyo perchnogion tir ar yr Arfordir Treftadaeth i gynnig cyfleoedd gwersylla cynaliadwy ar eu tir am gyfnod cyfyngedig. Wedi'i hwyluso trwy Gymunedau Gwledig Creadigol, roedd yn cynnwys pump o ffermwyr a pherchnogion tir mewn prawf yn 2012, a dau ffermwr arall yn rhan o rai agweddau marchnata.
- Prosiect peilot gweithgareddau'r arfordir: oedd yn galluogi i chwe darparwr gweithgaredd i beilota eu gweithgaredd rhwng Gorffennaf a Medi 2014.
- Prosiect dehongli'r Arfordir Treftadaeth: strategaeth ddehongli yn y lle cyntaf yn arwain at osod byrddau dehongli, a datblygu apiau realiti estynedig a phecynnau gweithgaredd; a chelfyddyd gyhoeddus trwy brosiect a ariannwyd trwy brosiect Cymunedau'r Arfordir.

Llai penodol ond yn cefnogi ffocws yr Arfordir Treftadaeth:

- Llwybrau'r Fro – codi proffil cerdded yn y Fro trwy greu 10 taith gerdded, gyda thair ar yr Arfordir Treftadaeth ac yn gysylltiedig â Strategaeth Dehongli'r Arfordir Treftadaeth. Roeddent yn adeiladu ar deithiau oedd eisoes wedi'u cyhoeddi gan Valeways.
- Llysgenhadon Twristiaeth – edrych ar yr angen am well gwybodaeth i dwristiaeth trwy lysgenhadon twristiaeth sy'n rhannu ac ychwanegu at eu gwybodaeth am yr ardal i'w rannu ag ymwelwyr i'w hannog i aros yn hirach, dychwelyd ac annog eraill i ymweld.
- Pwyntiau Gwybodaeth i Dwristiaid – sefydlu dros 50 pwynt gwybodaeth yn cynnwys 5 canolfan Gwybodaeth i Dwristiaid newydd, ar ôl cau'r Canolfannau Gwybodaeth i dwristiaid Rhanbarthol.

Mae'r ffocws ar yr Arfordir Treftadaeth hefyd wedi cael ei gefnogi trwy gyllid Cronfa Cymunedau'r Arfordir, trwy gais gan Gyngor Bro Morgannwg i adeiladu ar brosiectau LEADER. Cafwyd cyllid Cymunedau'r Arfordir i helpu i wneud y mwyaf o botensial cyflogi'r arfordir, ynghyd â gwneud gwelliannau cyfalaf yn yr ardal, e.e. gwelliannau i lithrfa Bae Dwn-rhefn. Yn fwy diweddar, mae cyllid Cymunedau'r Arfordir wedi'i ddefnyddio fel arian cyfatebol i gefnogi prosiectau yn y rhaglen LEADER gyfredol. Er enghraifft, mae cefnogaeth Cronfa Cymunedau'r Arfordir wedi helpu unedau storio wrth ymyl Canolfan yr Arfordir Treftadaeth ym Mae Dwn-rhefn i annog busnesau a darparwyr gweithgareddau i ddefnyddio'r arfordir fel lleoliad ar gyfer eu busnes.

Mae'r rhaglen LEADER gyfredol wedi galluogi i Gymunedau Gwledig Creadigol barhau gyda'i ffocws ar yr Arfordir Treftadaeth. Roedd astudiaeth dichonolrwydd cyfleoedd economaidd 2015/2016 yn archwilio cyfleoedd masnachol allai ddatblygu apêl y gyrchfan a gwella datblygiad busnesau ar yr Arfordir Treftadaeth, gyda thri lleoliad yn cael eu harchwilio'n fanwl – Bae Dwn-rhefn, Canolfan Arfordir Treftadaeth Morgannwg a'r adeilad achub bywyd môr a'r cyfleuster cymunedol yn Aberogwr.

Wedi hynny, cynhaliwyd digwyddiad peilot pop-yp am bythefnos ym Medi/Hydref 2016 ym Mae Dwn-rhefn, gan gynnal pedwar gwahanol ddigwyddiad; Crefftau ar yr Arfordir, Gŵyl Bwyd Araf, sinema awyr agored Tiroedd Coll a Bwyd a Diod Gerddi'r Hydref. Mae'r digwyddiad crefft wedi parhau ers hynny, gan amlinellu'r angen am rwydwaith crefftau – arweiniodd at Rwydwaith Gwneuthurwyr y Fro, sydd hefyd yn cael ei chefnogi gan Gymunedau Gwledig Creadigol trwy gyllid LEADER.

Mae prosiectau eraill hefyd yn parhau i ddatblygu dyheadau. Mae datblygiadau o Lwybrau'r Fro yn cynnwys teithiau addas i gŵn trwy brosiect TEADER 'Pawennau yn y Fro', a phrosiect LEADER 'Mannau Gwybodaeth Digidol i Dwristiaeth' sy'n archwilio sut gellir annog ymwelwyr i gyfrannu tuag at gost deunydd wedi'i argraffu fel taflenni teithiau, os yw'r wybodaeth hefyd ar gael ar-lein.

Mae Gŵyl y Môr (gweler y disgrifiad manwl isod) a gefnogir trwy'r rhaglen LEADER gyfredol yn parhau i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored trwy waith dichonolrwydd a digwyddiad arddangos (Mehefin 2019) i brofi amrywiaeth o weithgareddau awyr agored mewn gwahanol leoliadau ar hyd yr arfordir.

### Gwaddol o'r datblygiadau


Mae Cymunedau Gwledig Creadigol ac eraill wedi ceisio sicrhau gwaddol o brosiectau unigol o fewn gweithgareddau'r Arfordir Treftadaeth ac mae eraill wedi ceisio sicrhau gwaddol o brosiectau unigol o fewn y gweithgareddau hyn mewn gwahanol ffyrdd, oedd yn angenrheidiol i sicrhau momentwm:

- Mae nifer o weithgareddau twristiaeth bellach yn rhan o Ymweld â'r Fro a gwaith swyddogion twristiaeth y Cyngor. Mae Ymweld â'r Fro wedi mabwysiadu rhywfaint o'r brandio a ddatblygwyd trwy brosiectau'r Arfordir Treftadaeth ar sail bod busnesau yn gyfarwydd ag ef ac yn gweld ei werth.
    - Mae gan yr arfordir treftadaeth dudalen ar adran 'Ysbrydoliaeth' y wefan, ac mae'r pecynnau gweithgareddau i deuluoedd a'r apiau realiti estynedig ar gael i'w lawrlwytho
    - Mae Llwybrau'r Fro ar gael ar wefan Cerdded yn y Fro sydd ynghlwm â'r adran 'Ysbrydoliaeth'; ac hefyd ar gael ar wefan Valeways
    - Mae gan Lysgenhadon y Fro dudalen ar y wefan ynghyd â rhif i gysylltu â hwy. Mae eraill sydd heb eu rhestr ond yn eiriolwyr trwy eu busnesau eu hunain. Tra bo Llysgenhadon y Fro yn cwrdd heb angen cymorth pellach gan Gymunedau Gwledig Creadigol (er bod Cymunedau Gwledig Creadigol yn rhoi rhywfaint o gymorth gweinyddol), mae rhai Llysgenhadon yn teimlo'n llai brwdfrydig ac yn teimlo nad yw'r cynllun mor amlwg ag y gallai fod, yn cynnwys gyda rhai busnesau twristiaeth. Byddai'n werth ailfywiogi'r rhwydwaith gan ei fod yn adnodd na ddylai'r Fro ei golli
- Cyhoeddodd adran gynllunio'r Cyngor ganllawiau cynllunio atodol at ddatblygu twristiaeth (2019) i gefnogi nod y Cynllun Datblygu Lleol i ehangu cyfleoedd arallgyfeirio gwledig ar gyfer defnydd twristiaeth a hamdden effaith isel a chynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau at brosiectau a gafodd gymorth LEADER, yn cynnwys dull datblygu ar yr Arfordir Treftadaeth fel a ddatblygwyd trwy gynllun Gwersylla Perffaith.

Mae nifer o fentrau yn dal i gael eu datblygu a bydd gweld sut i'w cynnal dros gyfnod hirach yn bwysig, er enghraifft canfyddiadau astudiaeth dichonolrwydd Gweithgareddau'r Arfordir a Gŵyl y Môr. Bydd Cymunedau Gwledig Creadigol a'r Cyngor yn ehangach yn parhau â rôl allweddol yn hyn.

Mae'r 'map' isod yn dangos y prosiectau a gefnogwyr gan y tair rhaglen, a sut mae nifer wedi adeiladu ar brofiad gweithgareddau blaenorol.

# ARFORDIR TREFTADAETH
Map gweithgaredd



# GŴYL Y MÔR

## Datblygiad y Prosiect

Un o ddyheadau tymor hir rhaglenni datblygu gwledig yn y Fro wledig yw manteisio mwy ar gyfleoedd yn sgil Arfordir Treftadaeth Morgannwg o ystyried y tirwedd ffisegol a'r cyfleoedd maent yn eu cynnig o ran cyfrannu at ddatblygu economaidd gwledig. Mae holl gyfnodau cyllid LEADER wedi cynnal prosiectau ar wahân i gyflawni hynny. Gyda'i gilydd, maent wedi cynyddu potensial yr arfordir treftadaeth fel cyrchfan ac un o yrwyr yr economi lleol.

Mae Gŵyl y Môr yn parhau i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored ar yr arfordir treftadaeth trwy waith dichonolrwydd a digwyddiad arddangos (a gynhaliwyd ym Mehefin 2019).

- Roedd gwaith yn y rhaglenni blaenorol wedi amlinellu'r potensial ar gyfer mwy o weithgareddau ar yr arfordir, a rhan gyntaf prosiect Gŵyl y Môr oedd profi'r potensial ymarferol. Edrychodd ar bwy fyddai'r 'prynwyr' posibl ar gyfer gweithgareddau awyr agored, o ran darparwyr gweithgareddau awyr agored a rhai i gymryd rhan (ymwelwyr a phobl leol) i ymestyn eu hymwybyddiaeth o'r cyfleoedd. Cafwyd gweithgareddau ymgynghori gyda darparwyr gweithgareddau a busnesau twristiaeth yn y Fro wledig, ac awdit o'r safleoedd ar yr arfordir yn edrych ar y gweithgareddau hamdden/masnachol sy'n bodoli.
- Ail ran Gŵyl y Môr oedd digwyddiad arddangos i brofi amrywiaeth o weithgareddau awyr agored mewn pum lleoliad gwahanol ar yr arfordir, yn cynnwys cysylltu â digwyddiad oedd eisoes wedi'i drefnu yn y Coleg Iwerydd, Sain Dunwyd. Cefnogodd Cymdeithas Twristiaeth Gweithgareddau Cymru (WATO) a Chymunedau Gwledig Creadigol y mudiad i wneud hyn, gan geisio gwaredu rhwystrau i weithredu ar yr arfordir treftadaeth i ddarparwyr, a denu pobl newydd wrth i ymwelwyr a phobl leol gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

## Cyflawni

Caiff y prosiect ei arwain gan Grŵp Gweithredu Lleol Cymunedau Gwledig Creadigol, yn gweithio gyda Cheidwaid Arfordir Treftadaeth Cyngor Bro Morgannwg, oedd mewn rôl cefnogi o safbwynt rheoli tir. Cynhaliodd y tîm Cymunedau Gwledig Creadigol broses dendro agored ar ran y Grŵp Gweithredu Lleol, i gael arbenigedd ar gyfer astudiaeth dichonoldeb a threfnu'r digwyddiad arddangos. WATO enillodd y tendr, fforwm sy'n cysylltu darparwyr gweithgaredd awyr agored yng Nghymru er mwyn rhannu arfer da. Mae WATO wedi gweithio'n glos gyda thîm Cymunedau Gwledig Creadigol i wneud y gwaith.

Mae rhanddeiliaid eraill wedi bod yn rhan o'r prosiect, Coleg Iwerydd yn arbennig, lle roedd darparwyr yn cynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd, a busnesau twristiaeth leol yn cynnal stondinau.



## Y Gyllideb

Roedd gan brosiect Gŵyl y Môr gyllideb o £31,700.

## Y canlyniadau

Y prif ganlyniad fydd adroddiad yn amlinellu argymhellion yn seiliedig ar brofiad y digwyddiadau arddangos a'r gwaith dichonolrwydd, er mwyn datblygu gweithgareddau awyr agored ar yr arfordir treftadaeth yn y tymor byr, canolig a hir.

# YNYSU CYMDEITHASOL

Gwelwyd ynysu cymdeithasol fel pwnc arwyddocaol ym Mro Morgannwg, gyda thri o brosiectau LEADER yn ceisio ymdrin ag ef. Mae'r 'map' canlynol yn amlinellu'r prosiectau sydd wedi ymdrin ag ynysu cymdeithasol yn y fro wledig. Mae astudiaethau achos yn cyd-fynd â hyn isod.

## TYDDYNWYR MORGANNWG

### Datblygiad y prosiect

Roedd cydnabyddiaeth fod bod yn dyddynwr yn waith anodd, ei fod yn waith sy'n ynysu pobl yn gymdeithasol a'i bod yn anodd rhannu arfer da. Roedd tyddynwyr yn teimlo'u bod yn aml yn cael eu gweld fel ffermwyr hobi, oedd ddim yn wir; mae angen iddynt gwrdd â'r un rheolau a gofynion â ffermwyr mwy, ond heb yr un rhwydwaith gefnogi. Daeth y syniad o sefydlu rhwydwaith gan ddau dyddynwr oedd am sefydlu rhwydwaith, gan fynd at Gymunedau Gwledig Creadigol i gael cyllid i ffurfioli'r gwaith o greu perthnasau a rhwydweithio. Arweiniodd hynny at sefydlu rhwydwaith Tyddynwyr Morgannwg. Mae 20-25 o dyddynwyr yn mynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd.

Un o amcanion y rhwydwaith yw lleihau unigrwydd ymysg tyddynwyr a gwneud eu busnesau'n fwy effeithiol. Er enghraifft caffael ar y cyd i leihau costau a gwella cyfleoedd i greu refeniw.

### Cyflawni

Cafodd y rhwydwaith ei sefydlu gan unigolion brwdfrydig sydd wedi mynd a'r prosiect yn ei flaen. Er bod Cymunedau Gwledig Creadigol wedi galw ambell gyfarfod defnyddiol, daeth llawer o'r symbyliad o'r tu mewn i'r rhwydwaith ei hun. Mae gan y grŵp bellach gyfansoddiad ffurfiol, ac wedi cael cymorth ariannol pellach gan Cywain i fynd ymlaen gyda chynlluniau i farchnata ar y cyd. Mae'r rhwydwaith yn gweld hyn fel cam mawr ac yn rhan o'r daith bosibl tuag at frandio. Sefydlodd ei dudalen Facebook ei hun a chael tua 7,000 ymweliad.

### Y Gyllideb

Roedd gan Dyddynwyr Morgannwg gyllideb o tua £764, gan fedru denu arian cyfatebol yn erbyn hynny. Mae'r prosiect wedi ymestyn yn sgil llawer o amser gwirfoddol o'r rhwydwaith, gan ei alluogi i gynyddu gweithgaredd/cwmpas. Er enghraifft, roedd yn y babell fawr adeg Sioe y Fro.


### Y canlyniadau

Roedd gan y rhwydwaith babell fasnach yn Sioe Bro Morgannwg, gan ennill gwobr am y babell orau. Y cynllun ar gyfer sioe'r flwyddyn nesaf yw cael pabell lle gall nifer o dyddynwyr arddangos. Mae cynrychiolydd o'r rhwydwaith bellach ar bwyllgor y Sioe Frenhinol, ac mae Bro Morgannwg wedi'i ddewis fel sir nawdd 2021. Gallai hyn fod yn gam pwysig. Bydd hefyd yn cael ei chynrychioli yng nghynhadledd tyddynwyr Cymru.

Mae cynlluniau pellach wedi cael eu datblygu – fel y syniad o gael carafán allai gynnig llety symudol a swyddfa i dyddynwyr sy'n teithio i ddigwyddiadau arddangos – ond mae hyn yn ddibynnol ar gyllid. Mae'r rhwydwaith yn teimlo fod cymorth parhaus ar gyfer prosesau ymgeisio am grantiau yn parhau'n bwysig a gwerthfawr. Mae'n parhau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer brand penodol i dyddynwyr, gan weithio ag asiantaeth farchnata.

Roedd y rhwydwaith yn glir iawn na ddylid anwybyddu'r manteision o ran datblygiad personol yr unigolion sy'n rhan o'r prosiect. Mae'n ganlyniad allweddol i'r prosiect. Mae trawsnewidiad rhai unigolion – sy'n aml yn gweithio'u hunain mewn mannau diarffordd – wedi bod yn amlwg. Mae bywydau rhai unigolion wedi'u trawsnewid yn sgil bod yn rhan o'r rhwydwaith.

A – Prosiect Hanes Tresimwn
B – Gwefan Hanes Tresimwn
C – Parti Nadolig Tyddynwyr Morgannwg
D – Leige Manor; West House; Happy Jakes; Amelia Trust




'Map' YNYSU CYMDEITHASOL

# SINEMAS GWLEDIG

Yn 2012, dod a'r sgrîn fawr i leoliadau bach oedd nod prosiect Sinema Gwledig y Fro gan Gymunedau Gwledig Creadigol. Yn dilyn llwyddiant Cowbridge Big Screen, gwelodd Cymunedau Gwledig Creadigol alw am ddangos ffilmiau'n lleol ar draws y Fro wledig, gan gydnabod na allai'r holl drigolion deithio i sinemâu Pen-y-bont, Y Barri neu Gaerdydd, ond hefyd yn cydnabod y byddai'n ffordd dda o osgoi ynysu cymdeithasol, annog trigolion lleol i i ddigwyddiad cymunedol un ai ar eu pen eu hunain neu gydag eraill.

Roedd Cowbridge Big Screen eisoes wedi dangos fod nifer o drigolion lleol yn mynd ir sinema fisol, a'i fod yn un o ychydig o ddigwyddiadau cymdeithasol y byddent yn mynd iddo bob mis, gan ei fod yn fforddiadwy, hawdd i'w gyrraedd a'u bod yn gyfforddus yn mynd eu hunain oherwydd natur y weithgaredd. Roedd y sinemâu hefyd yn cynnig profiad y sgrîn fawr, gan gynnig hufen iâ a chyfle i gael sgwrs hanner amser.

Lansiodd Cymunedau Gwledig Creadigol beilot oedd yn cynnwys hyfforddi gwirfoddolwyr oedd â diddordeb mewn ffilm i ddefnyddio'r offer sgrinio ffilm symudol newydd. Wedi hynny, gwnaeth nifer o gymunedau gais am set o offer eu hunain, gan fod yn llwyddiannus yn cael cyllid Echel 3. Mae pob lleoliad yn dangos ffilmiau'n rheolaidd, ac enillodd Sinema Gymunedol Llancarfan wobr y Gymdeithas Ffilm Newydd Orau yng Ngwobrau Cymdeithas Ffilm y Flwyddyn Cinema for All 2013.

Lleoliadau a Gefnogwyd:

- Sinema Cymunedol Llancarfan
- Sgrîn Fawr y Bonftaen
- Sinema Cymunedol Llanbedr y Fro
- Sinema Murchfield – Dinas Powys
- Sinema Cymunedol Tregolwyn
- Canolfan Gelfyddydau Sain Dunwyd

Yn 2019, mae'r holl sinemâu yn dal i weithredu, ac mae rhai newydd hefyd wedi cael eu sefydlu, yn cynnwys Sili a Sain Tathan, gan ddefnyddio Pecyn Offer Sinemâu Gwledig 2012. Mae nifer hefyd wedi bod yn rhan o Ŵyl Ffilm y Fro Wledig dan arweiniad Cymunedau Gwledig Creadigol, ac wedi cynnig ymestyn eu cynnig i weithdai animeiddio a digwyddiadau dan themâu i ddatblygu'r diddordeb demograffig yn eu sinemâu.

# GŴYL FFILM 2019

Mae'r awydd i weld ffilmiau wedi parhau i dyfu. Mae'r sinemâu gwledig, a ddatblygodd trwy gyllid Cymunedau Gwledig Creadigol yn ffynnu o ran niferoedd, sinemâu awyr agored yn denu cynulleidfaoedd a phrofiadau sinema arbennig yn gwerthu allan. Dros y 7 mis diwethaf, ma Cymunedau Gwledig Creadigol wedi bod yn gweithio â grŵp o randdeiliaid i ddod â gŵyl ffilm i'r gymuned wledig hon, gyda ffilmiau, gweithdai, sgyrsiau creadigol a digwyddiadau trochi yn bywiogi'r lleoliadau unigryw. Nod yr ŵyl yw mynd y tu hwnt i sgrinio ffilmiau, gan ddatblygu economi min nos y Fro wledig a chynnig cyfleoedd masnachol i leoliadau hanesyddol.

Aeth y prosiect ar Leoliadau'r Fro yn y lle cyntaf i drafod cymryd rhan yn yr ŵyl a chynnig cyfle i ymwneud â'u cymuned leol a thwristiaid mewn ffordd unigryw.

Neidiodd Dyffryn House, Castell Sain Dunwyd a Sinema Llancarfan ar y cyfle i beilota digwyddiadau newydd a fydd yn cysylltu â'r gymuned na fyddai fel arfer yn dod oherwydd yr amser neu'r rhaglen. Bydd Castell Sain Dunwyd yn arbennig yn agor eu drysau o 9am ac yn dangos ffilmiau Jurassic Park un ar ôl y llall a chynnig gweithdai animeiddio am ddim. Mae sinema Llancarfan yn defnyddio lle gwahanol i sgrinio – Eglwys Sant Cadog. Y nod yw arddangos y lleoliad unigryw hwn yn y gymuned a dod â phawb yn y pentref at ei gilydd beth bynnag fo'u hoed a'u demograffeg i ddathlu'r lleoliad hanesyddol.

Ar ôl y cyfarfodydd cychwynnol, mae'r ŵyl wedi cysylltu ag ystod eang o berchnogion busnes a mannau cymunedol i gynnig cyfleoedd i ymwneud â'r wyl. Mae Corntwn a Sant Hilari yn peilota ffilmiau a digwyddiadau

fydd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol ac economaidd i'r gymuned gan greu synnwyr o le ac ysbryd cymunedol gyda'r trigolion yn ymdrin a gweithio'n erbyn ynysu gwledig.

Mae Coed Hills hefyd yn defnyddio'r ŵyl i gomisiynu ffilm fer gyda'r cwmni creadigol, "Griot and The Peoples Voice". Byddant yn dilyn ac yn ffilmio Gwerthwyr y Big Issue ym Mro Morgannwg, ac sy'n bresenoldeb cyfarwydd yn ein cymunedau. Maent yn rhedeg busnesau yn ein plith heb i ni ddeall pwy ydyn nhw ac rydym yn gobeithio y bydd y prosiect yn helpu i integreiddio'r perchnogion busnes hyn yn ddyfnach i'n cymuned.

Mae Ysgol Gynradd Llansannor yn comisiynu prosiect hanes llafar, sydd am amlygu'r gwahanol leisiau mewn cymuned fechan sydd wedi profi newid yn sgil newidiadau i fyd amaeth a symud cyflogaeth yn sgil hynny. Gyda chenedlaethau yn y gymuned fechan hon yn meddu ar leisiau mor wahanol ac yn teimlo'n ynysig o ran deall safbwyntiau pobl eraill, gobeithiwn y bydd y prosiect yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r safbwyntiau gwahanol a golygu fod elfennau o'r gymuned yn deall ei gilydd yn well.

## GREENLINKS

Mae Gwasanaeth Cludiant Cymunedol Gwledig Greenlinks yn brosiect sydd â cheisio lleihau ynysu gwledig yn greiddiol iddi. Datblygwyr cynllun peilot yng Nghynllun Busnes 1, a chafwyd cymorth pellach yng Nghynllun Busnes 2 – gan gael cymorth sylweddol trwy'r rhaglenni datblygu gwledig. Roedd y cyfnod peilot yn bwysig o ran profi fod galw digonol am gynllun cludiant gwledig. Mae'n gynllun aelodaeth a dyfodd yn ystod y cyfnod. Mae'n mynd ati i ymdrin â thema 'Mynediad at a darpariaeth gwasanaethau' yn y Strategaeth Datblygu Lleol.

Mae'n chwarae rôl bwysig yn cysylltu pobl â gwasanaethau pwysig, megis siopau, ymweliadau iechyd a digwyddiadau cymunedol. Fe'i defnyddir gan bobl all fod heb eu dull cludiant eu hunain, sy'n dioddef gyda'u hiechyd ac ati. Mae'n amlwg felly yn cysylltu pobl â'r gwasanaethau sydd eu hangen i arwain bywyd mwy cyflawn.

Cafodd pwysigrwydd y cynllun ei gydnabod gan y Cyngor a benderfynodd barhau i gefnogi Greenlinks trwy ddefnyddio cyllid Adran 106 (Cytundeb Cynllunio) ac ymestyn a gwasanaeth i ardaloedd trefol y Fro – gan gydnabod nad anhawster gwledig yn unig yw mynediad at wasanaethau. Mae'r cynllun bellach yn cael ei gydlynu gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae'r gwasanaeth felly wedi'i brif-ffrydio, a bellach mae gan y cynllun bedwar bws mini hygyrch a dau gar hygyrch.

# SAIN TATHAN

Sain Tathan yw un o gymunedau mwyaf difreintiedig y Fro wledig. Rydym wedi cynnwys un astudiaeth achos am brosiect a gefnogwyd a 'map' i ddangos sut mae prosiectau wedi helpu i ymdrin ag ynysu cymdeithasol yn y gymuned hon. Mae rhywfaint o orgyffwrdd hefyd rhwng 'mapiau' Ynysu Cymdeithasol a Sain Tathan.

## YSBRYD CYMUNEDOL

**Datblygiad y prosiect**

Mae Ysbryd Cymunedol yn brosiect rhwydweithio pentref, lle gall pentrefi yn y Fro wledig ddysgu gan weithgareddau ei gilydd sy'n helpu i ddatblygu a hyrwyddo ysbryd cymunedol. Mae'r prosiect wedi darparu cyllid i dreialu digwyddiadau a gweithgareddau newydd.

Tyfodd Ysbryd Cymunedol allan o brosiect LEADER cynharach o'r enw Mapio Cymunedol, prosiect arall oedd yn ceisio tynnu cymunedau at ei gilydd trwy archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau anstatudol trwy fapio beth sydd eisoes yn bodoli a gweld sut i lenwi bylchau mewn darpariaeth. Gwelwyd Ysbryd Cymunedol felly fel ffordd o lenwi rhai o'r bylchau hyn.


**Cyflawni**

Cychwynnwyd y prosiect gan y Grŵp Gweithredu Lleol trwy dîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Gwelwyd fod tuag 20 o gymunedau â diddordeb mewn cymryd rhan trwy broses mynegi diddordeb. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod rhwydweithio gyda gwahanol gyflwyniadau am yr hyn y gallai cymunedau eu gwneud. O hynny, cafodd pedair cymuned eu cefnogi gyda chymorth ar gyfer digwyddiadau/gweithgareddau newydd. Roedd pob un yn wahanol i'w gilydd, ond roeddynt oll yn cynnig rhywbeth newydd i'r gymuned:

- diwrnod yr amgylchedd ym Mhendeulwyn oedd yn creu cysylltiadau defnyddiol â'r ysgol;
- digwyddiad Rhyfel Byd Cyntaf yn Llanbedr, gyda chôr cymunedol a sefydlwyd ar gyfer y digwyddiad yn parhau;
- Grŵp Seintiau yn Sain Tathan, a gynhaliodd ddiwrnod iechyd a llesiant yn gysylltiedig â'r clwb pêl-droed;
- Saint Hilari a ddechreuodd gylchlythyr cymunedol.


**Y Gyllideb**

Mae gan Ysbryd Cymunedol gyllideb o £32,188.



**Y canlyniadau**

Y canlyniadau uniongyrchol yw'r digwyddiadau a'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn y cymunedau a dderbyniodd gymorth. Cafwyd canlyniadau eraill, e.e. yn Saint Hilari, arweiniodd at greu grŵp cymunedol gyda chyfansoddiad a chyfrif banc. Mae hynny wedi'i gwneud yn haws ymgeisio am gyllid ac mae'r grŵp eisoes wedi cael grant i ddod â grŵp theatr i'r pentref. Ni fyddai hyn yn bosibl heb fod yn grŵp â chyfansoddiad. Yn sain Tathan, mae cymryd rhan yn y prosiect Mapio Cymunedol a'r prosiect hwn wedi arwain at gyllid cyfalaf sylweddol i wella'r ardal chwaraeon/chwarae yn y parc lleol a gwella'r cyfleusterau newid. Mae hynny wedi tynnu rhagor o bobl ifanc at chwaraeon a mwynhau'r parc a rhagor o wirfoddolwyr yn helpu gyda digwyddiadau a gweithgareddau. Yr angen nawr yw sicrhau cynaliadwyedd parhaus ar gyfer yr hyn sydd wedi'i ddechrau.



Map Gweithaaredd SAIN TATHAN
A – Profiad 'Vibe'
B - Gwelliannau i ganolfan gymunedol newydd Sain Tathan
C – Adnewyddu cegin hen neuadd ysgol Sain Tathan
D – Gwelliannau i ganolfan gymunedol West Camp
E – Bleindiau tywyllu
J - Newydd - gwneud synnwyr o lesiant
K- Diwrnodau Dêt
L - Iechyd Ysbryd Cymunedol
M – Creu Hafoc ag Iechyd
N – Creu SEINTIAU (DIWRNODAU GWEITHGAREDDAU HWYL, CAIS ADRAN 106 RCDF, DIGWYDDIADAU TEULUOL, GWASANAETHAU CHWARAE, DARARIAETH IEUENCTID)
F – Ynysu crogloftydd
G - Gateway Features
H - Cronfa Cymunedau'r Arfordir
Lle i Bobl Ifanc
Parc Sglefrio Sain Tathan
A
Cynllun Busnes 1 2007-2011
Greenlinks
Bws Cymunedol
Rhwyd-weithiau Busnes Vale 13
Ysbrydoli
Clwb Golff Sain Tathan
B
Gwelliannau Neuaddau Pentref
Awdit Ynni
E
Lle Ymgasglu
D
C
N
Balchder yn ein pentrefi
Cyngr Cymuned Sain Tathan
F
M
L
Mapio Cymunedol
Cynllun Busnes 2 2011-2014
Croesawu Cerddwyr
K
Ysbryd Cymunedol
Cymunedau'n Esblygu
J
Balchder yn y Fro
Gwasan-aethau Sylfaenol
Sinema Cymunedol
Eglwys St Brise
LEADER 2014-2020
Synnwyr o Le
H
G
Trosglwyddo Asedau MoD
Cefnogaeth Amgueddfa Awyrennau
Teithiau Ysgol y Fro

## Casgliadau – beth mae'r astudiaethau achos yn eu dangos

Trwy ddatblygu'r astudiaethau achos hyn, ac yn bwysig, trwy siarad ag unigolion allweddol, rydym wedi medru deall rhai o'r prif faterion sy'n amlygu'n gyson yn well. Rydym yn eu trafod yn eu tro:

- Mae'n glir fod cysylltiadau helaeth rhwng prosiectau a mentrau a gefnogir. Mae rhai o'r astudiaethau achos, megis yr un sy'n canolbwyntio ar ynysu cymdeithasol neu'r straeon seiliedig ar le yn Llanbedr y Fro a Sain Tathan yn dangos ei bod yn stori sy'n newid ac yn esblygu gam wrth gam. Trwy gael LEADER am dros ddegawd (a thîm Cymunedau Gwledig Creadigol hefyd) cafwyd cysondeb yn y gefnogaeth sydd wedi caniatáu i roi cymorth mewn haenau, gan ymdrin â phethau trwy gamau bach.
- Gan ddilyn hynny, mae rhai enghreifftiau lle mae cefnogaeth gan y rhaglen wedi arwain at drawsnewid mewn un cam. Mewn gwirionedd, nid oedd gan y busnesau/cymunedau y gallu i wneud newid mawr mewn un cam. Mae gallu LEADER felly i roi cymorth bychan ar wahanol adegau wedi cyd-fynd ag anghenion y busnesau/mudiadau neu gymuned i gymryd y cam nesaf yn eu datblygiad a thyfu'n organig.
- Yn ein barn ni, mae enghreifftiau clir o lle mae'r cymorth LEADER gwreiddiol wedi gweithio fel catalydd ar gyfer gwaith pellach. Gellid cynnwys Llanbedr y Fro fel enghraifft yn y cyd-destun hwn. Mae'r cymorth cychwynnol hwnnw wedi cychwyn gweithgaredd cymunedol sydd wedi parhau i ddatblygu dros amser.
- Mae'n glir fod perthynas tîm Cymunedau Gwledig Creadigol gyda'r prosiectau a gefnogir wedi bodoli ers blynyddoedd. Nid yw'r berthynas wedi dod i ben wrth i gefnogaeth LEADER ddod i ben. Mae'r tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn cysylltu â'r prosiectau'n rheolaidd i weld sut mae pethau'n mynd a pha gymorth eraill maent ei angen. Nid yw hynny o anghenraid yn ariannol, ond trwy gymorth fel cyswllt â digwyddiadau sydd ar ddod ac ati. Nid yw'r ymyrraeth wreiddiol yn orffen y cyswllt. Ni ddylid tanbrisio cysondeb Cymunedau Gwledig Creadigol yn gweithredu fel canolfan i'r gymuned yn y Fro weledig. Rydym yn amau os fyddai effaith rhaglen LEADER ar yr un lefel oni bai fod tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn gweithredu fel adnodd cyson.
- Mae'r astudiaethau achos yn dangos rhai straeon o lwyddiant gwirioneddol lle mae busnes wedi parhau i ddatblygu ar ôl y cymorth cychwynnol gan LEADER. Mae'r Cowbridge Food Collective yn enghraifft dda o brosiect oedd wedi cael cefnogaeth gan y rhaglen ac sy'n cynnig manteision gwirioneddol i fusnesau a'r gymuned amaethyddol yn y Fro wledig – mae'n cael effaith fel tonnau. Mewn sawl ffordd, mae'n cynrychioli hanfod yr hyn y cafodd rhaglen LEADER ei sefydlu i'w gyflawni.
- Mae rhai o'r straeon eraill yn fwy cymysg – gyda rhywfaint o'r datblygiadau dilynol yn anoddach i'w mesur a / neu eu priodoli i'r gefnogaeth LEADER wreiddiol. Bydd hyn yn amrywio yn ôl prosiect ac ni ellir ei mesur, ond mae'n elfen bwysig i'w chydnabod
- Mae pa mor weledol yr rhaglen LEADER yn amrywio – o fewn y rhaglenni blaenorol a chyfredol (fel nodwyd yn y gwerthusiad canol tymor). Roedd mwyafrif y prosiectau roeddem wedi siarad â hwy yn priodoli'r cymorth a gawsant i dîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn hytrach na rhaglen LEADER. Mae hyn yn codi cwestiwn pwysig am sut mae'r rhaglenni wedi cael eu gweld – "beth mae LEADER erioed wedi'i wneud i ni".
- Yn olaf, teimlwn fod tystiolaeth dda o integreiddiol i mewn i gefnogaeth prif ffrwd. Mae datblygu a rheoli'r brand 'Ymweld â'r Fro' yn arbennig wedi gweithredu fel menter brand ymbarél ar gyfer sianelu nifer o fentrau twristiaeth. Mae hyn wedi bod yn bwysig ar gyfer datblygu dull wedi'i gydlynu. Heb hynny, roedd perygl y byddai nifer o weithgareddau (a brandiau cysylltiedig) wedi datblygu mewn modd darniog gan greu darlun cymysglyd. Yn hynny o beth, mae'r berthynas glos rhwng Cyngor Bro Morgannwg a rhaglen LEADER wedi bod yn fanteisiol. Ein barn ni yw bod y Cyngor wedi gweithredu fel cefnogwr ac eiriolwr cryf dros y rhaglen dros y ddegawd ddiwethaf, ffaith sy'n cael ei hesgeuluso o bryd i'w gilydd.

# 4 Tystiolaeth o effaith gwaddol

## Arolwg Ar-lein

**Dull:**

Fel rhan o'r gweithgareddau gwerthuso oedd yn canolbwyntio ar gael gwell dealltwriaeth o effaith gwaddol y gefnogaeth a roddwyd trwy'r rhaglenni blaenorol, datblygwyd arolwg ar-lein. Anfonwyd yr holiadur at arweinyddion prosiectau, neu unigolion oedd â chysylltiad clos â'r gweithgareddau a gefnogwyd. Roedd yr arolwg ar-lein yn canolbwyntio ar y prosiectau hynny a gefnogwyd trwy Gynlluniau Busnes 1 a 2 LEADER, yn y cyfnod 2007-2014 (nid prosiectau Echel 3 a 4).

Nod yr arolwg ar-lein oedd cyd-fynd ag astudiaethau achos manylach, a drafodwyd eisoes. Roedd yn ceisio cael rhagor o adborth ar lefel uwch, ac i hynny gael strwythur rannol. Datblygwyd dau holiadur, gan gydnabod fod gan bobl wahanol nod:

- Arolwg yn canolbwyntio ar themâu CB1 a CB2 oedd yn cynnwys cymorth uniongyrchol i fusnesau (yr 'arolwg busnes')
- Arolwg yn canolbwyntio ar themâu CB1 a CB2 oedd yn cynnwys cymorth i brosiectau cymunedol a threftadaeth (yr 'arolwg cymuned a threftadaeth')

Anfonwyd y ddolen i'r holiaduron trwy dîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Roedd yr holiadur yn 'fyw' yn ystod Mai 2019. O ystyried yr amser aeth heibio ers i nifer o'r prosiectau gael eu cefnogi, h.y. 10 mlynedd, roedd cael ymateb cyflawn wastad am fod yn anodd. Er gwaethaf nifer o negeseuon atgoffa gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol, roedd yr ymateb yn siomedig. Cafodd yr 'arolwg busnes' 23 ymateb, a dim ond 3 ymateb gafodd yr arolwg 'cymuned a threftadaeth'. Nid oedd pawb a ymatebodd wedi ateb pob cwestiwn.

O ystyried nifer fechan yr ymatebion, teimlwn ei bod yn briodol i gyfuno ymatebion y ddau arolwg. Lle bo'r cwestiynau'n wahanol, rydym wedi amlinellu ymatebion y ddau arolwg, er nad oes llawer o werth gwneud hynny o ystyried nifer fechan yr ymatebion i'r arolwg cymuned a threftadaeth. Nid ydym wedi cynnwys yr ymateb i bob cwestiwn, dim ond y rhai sy'n berthnasol i ddeall gwaddol y gefnogaeth a roddwyd.

Fel gyda phob arolwg, rhaid ystyried 'tuedd positif' yn yr ymatebion. Hynny yw, roedd y rhai ag agwedd fwy positif tuag at y gefnogaeth trwy'r rhaglenni datblygu gwledig a/neu dîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn fwy tebygol o ymateb. Efallai, felly, na fydd yr ymatebion o'r sampl o fusnesau/mudiadau yn gwbl gynrychioladol o'r holl brosiectau a gefnogwyd trwy'r rhaglenni blaenorol. Mae hyn yn bwynt ynghylch gofal wrth ddehongli'r canfyddiadau.


**Canlyniadau'r arolwg:**

Roedd y busnesau a ymatebodd i'r arolwg yn ymwneud â nifer o weithgareddau, fel y gwelir yn Siart 1. Roedd y tri phrosiect a ymatebodd i'r arolwg cymuned a threftadaeth yn ymwneud wella cyfleusterau cymunedol'. Roedd y mwyafrif yn ymwneud ag un prosiect yn unig, roedd 20 (ar draws y ddau arolwg) yn ymwneud ag un prosiect trwy'r gefnogaeth datblygu gwledig, a 5 arall yn ymwneud â mwy nag un prosiect.

O'r rhai nododd eu bod wedi ymwneud â mwy nag un prosiect, roedd y mwyafrif o'r farn fod y gweithgareddau prosiect wedi datblygu yn ôl angen y busnes ac wrth i'r cyfleoedd am gyllid godi. Dim ond un (o'r 5) oedd yn teimlo'i fod yn rhan o strategaeth ehangach i ddatblygu eu busnes, tra'r oedd un arall yn nodi iddynt ddatblygu ychydig ar y tro.

Siart 1


Pa fath o brosiect(au) busnes oeddech chi'n rhan ohono/cael arian ar ei gyfer (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) (n=16)




Gofynnwyd os oedd y prosiect a gefnogwyd yn wreiddiol trwy gymorth datblygu gwledig yn dal ar waith. Dim ond un opsiwn oedd yr ymatebwyr yn gallu dewis. Mae Siart 2 yn dangos fod tua thraean (31% - 8) yn teimlo fod y prosiect/gweithgaredd wedi tyfu neu ddatblygu'n sylweddol ers ei ariannu, a phump arall (20% - 5) yn nodi fod camau datblygu/gweithgaredd bellach ers y cyllido gwreiddiol. Nododd tua chwarter fod y prosiect/gweithgaredd wedi dod i ben ers y cyllido gwreiddiol, er bod hanner hynny am fod y prosiect wedi'i gwblhau yn ôl y bwriad. Felly dim ond 3 o'r 26 prosiect a ymatebodd oedd wedi dod i ben yn annisgwyl. Mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol, *yn nodi fod y gweithgareddau a ariannwyd wedi parhau yn dda.*

Siart 2


Ydi'r prosiect/busnes a ariannwyd yn parhau ar waith heddiw? (n=26)




Rydym yn awyddus i ddeall rôl tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wrth ddatblygu'r prosiectau. Mae Siart 3 yn dangos fod mwyafrif y prosiectau yn y sampl wedi cael eu harwain gan y busnes/mudiad ond wedi cael cymorth gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn y camau cynnar. Roedd tua tri chwarter (72% - 19) wedi datblygu gyda mewnbwn gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol, gyda'r gweddill yn cael eu gyrru gan y busnes/mudiad ei hun.

Siart 3

Sut fyddech chi'n disgrifio sut cafodd y prosiect ei ddatblygu ar y pryd? (n=25)





Gofynnwyd i'r rhai a gafodd gymorth gan Gymunedau Gwledig Creadigol pa mor bwysig oedd y cymorth hwnnw. O'r 19 arweinydd prosiect a ymatebodd, roedd yn glir o'r ymatebion ei fod wedi chwarae rôl bwysig. Pan ofynnwyd 'pa mor bwysig oedd y gefnogaeth gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol i ddatblygiad eich prosiect[10]' *nododd pob un ei fod yn 'bwysig iawn'.* Mae hyn yn dangos yn glir o'r gwerth roedd prosiectau yn ei roi ar y cymorth a gafwyd gan Gymunedau Gwledig Creadigol yn y rhaglenni blaenorol (a'i gadarnhau gan adborth rydym wedi'i gael am y rhaglen LEADER gyfredol).

Gofynnwyd wedyn am y goblygiadau i'w prosiectau heb gael cymorth Cymunedau Gwledig Creadigol. Eto, roedd yr adborth yn bositif iawn. Nododd ychydig dan 70% na fyddai'r prosiect wedi digwydd o gwbl, gyda'r gweddill yn nodi y byddai wedi digwydd yn arafach neu ar raddfa lai. Eto, mae hyn yn dangos rôl greiddiol tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn datblygu gweithgareddau trwy'r rhaglen flaenorol (a'i gadarnhau yn adborth y gwerthusiad canol tymor). Roedd prosiectau'n gallu dewis mwy nag un opsiwn.

Siart 4

Yn defnyddio'r dewisiadau isod, beth fyddai wedi digwydd heb y gefnogaeth gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol? (n=19)





10 *Rhoddwyd y dewisiadau 'ddim yn bwysig o gwbl', 'ddim yn bwysig iawn', 'eithaf pwysig' a 'phwysig iawn'*

Gan droi i ddeall effaith y cymorth datblygu gwledig, gofynnodd yr arolwg os oedd y cymorth wedi arwain at ganlyniadau positif. Rhoddwyd ystod o ddewisiadau gyda'r prosiectau yn gallu dewis mwy nag un opsiwn. Mae Siart 5 yn dangos fod amrywiaeth o fanteision. Roedd y manteision mwyaf poblogaidd yn cynnwys mwy o sicrwydd/sefydlogrwydd ariannol a galluogi'r busnes i ddatblygu cymorth a gwasanaethau newydd. Roedd un o bob pump yn teimlo fod y cymorth yn eu galluogi i hyrwyddo'r Fro fel cyrchfan (yn adlewyrchu'r math o fusnes fel y gwelwyd yn Siart 1). Roedd 28% (6) yn teimlo ei fod yn galluogi i'r busnes gynyddu trosiant – yn gymedrol ar y cyfan ers darparu'r cymorth. Ond, roedd chwarter (24% - 5) yr ymatebwyr o'r farn nad oedd effaith tymor hir.

Siart 5

Beth yw effaith tymor hir derbyn cymorth datblygu gwledig ar gyfer eich busnes/mudiad? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) (n=21)





Un o'r cwestiynau a ofynnwyd yn y briff gwerthuso oedd i ddeall effaith y prosiectau a gefnogwyd ar gyflogaeth. Faint o swyddi newydd oedd y cynllun wedi'u cefnogi'n anuniongyrchol? *Mae'r dystiolaeth o'r arolwg yn awgrymu mai cymharol fach fu'r effaith ar gyflogaeth.* Dim ond un busnes a ymatebodd gan ddweud eu bod wedi gallu creu/cefnogi mwy o swyddi ar ôl derbyn cymorth datblygu gwledig, er bod y busnes wedi creu 3-5 swydd llawn amser. Fel y gellid disgwyl, nid oedd unrhyw un o'r prosiectau cymunedol a threftadaeth wedi creu unrhyw swyddi newydd. Nododd un prosiect cymunedol a threftadaeth eu bod bellach yn cael rhagor o amser gwirfoddolwyr yn sgil y cymorth datblygu gwledig (tua 5-9 awr yr wythnos).

Rydym hefyd yn awyddus i ddeall manteision neu ganlyniadau ehangach nad oedd yn gysylltiedig â chymorth y rhaglen, y tu hwnt i gael eu mynegi mewn termau masnachol. Mae'r ymatebion i'w gweld yn Siart 6 ac yn cynnig adborth cadarnhaol. Eto, roedd dewis mwy nag un opsiwn. Yr ymatebion o'r arolwg busnes yn unig sydd yn Siart 6, gan fod yr opsiynau yn y cwestiwn yn rhai penodol. Roedd 70% (11) o'r prosiectau a ymatebodd yn

teimlo fod y gefnogaeth wedi arwain yn uniongyrchol at fwy o deimlad o undod cymunedol, gyda'r busnes yn gweithredu fel ffocws ar gyfer eu cymuned. Roedd 44% (7) hefyd yn teimlo fod y gwasanaethau wedi arwain at lai o ynysu cymdeithasol. Mae hyn yn bwysig yn nghyd-destun ffocws gwledig y rhaglenni a'r ffocws ar leihau ynysu cymdeithasol sy'n rhedeg trwy wahanol gyfnodau'r rhaglen.

Siart 6

Ydych chi'n teimlo fod y prosiect wedi arwain at fanteision pwysig ehangach? Yn defnyddio'r rhestr isod, allwch chi nodi'r manteision ehangach? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) (n=16)




I ymateb i'r un cwestiwn eang, er gyda gwahanol opsiynau, roedd y nifer fach o brosiectau cymunedol a threftadaeth yn teimlo fod y prosiect wedi galluogi unigolion i wella a datblygu eu sgiliau personol eu hunain e.e. hyder a chreu synnwyr cryfach o 'undod' cymunedol. Roedd hynny felly'n debyg i adborth yr arolwg busnes, lle gwelwyd cydlyniad cymdeithasol fel un o'r prif ganlyniadau positif.


Mae Siart 7 yn dangos fod rhaniad 50/50 rhwng y prosiectau sy'n parhau i ddatblygu'r gweithgareddau a ariannwyd yn wreiddiol, a rhai lle mae'r datblygiad wedi dod i ben – un ai gan fod y busnes/mudiad wedi datblygu i gyfeiriad gwahanol neu nad yw'r weithgaredd bellach yn berthnasol. Mewn un ffordd, mae'r adborth yn mynd yn groes i'r hyn a welwyd yn Siart 2 ac yn awgrymu nad oedd hirhoedledd y gweithgareddau gwreiddiol mor gryf ag a nodwyd eisoes. Serch hynny, mae'n werth cofio fod rhai o'r prosiectau wedi'u cefnogi hyd at 10 mlynedd yn ôl, ac felly bod amgylchiadau/marchnadoedd wedi newid dros amser. Mae angen i fusnesau/mudiadau fod yn hyblyg i ymateb i'r amgylchedd gyfnewidiol, ac nid yw'r adborth hwn yn syndod yn y cyd-destun hwnnw.

Eto, gan edrych yn ôl ar ateb blaenorol (Siart 5), ymddengys fod pwysigrwydd cymorth datblygu gwledig yn ymwneud mwy â gwella cynaliadwyedd ariannol, sy'n sylfaen ar gyfer datblygiad y busnes wedi hynny.

Cwestiwn allweddol yn yr arolwg – y manylwyd arno wrth ymgynghori ag arweinyddion prosiectau – oedd i ddeall pa mor bwysig oedd y cymorth datblygu gwledig gwreiddiol. A fu'n gatalydd ar gyfer effaith tymor hirach, fel y nodir uchod. *Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn galonogol iawn, gan awgrymu fod gan y rhaglenni datblygu gwledig blaenorol waddol arwyddocaol.* Roedd 82% (18) o'r prosiectau a ymatebodd i'r cwestiwn yn dweud fod y gefnogaeth wreiddiol un ai'n 'bwysig iawn' neu'n 'eithaf pwysig' ar gyfer sicrhau'r manteision roedd y gweithgareddau wedi'u gweld. Roedd un o bob pump yn teimlo nad oedd y gefnogaeth wedi bod yn bwysig iawn neu ddim yn bwysig o gwbl. Yn amlwg, i rai prosiectau, nid yw cymorth datblygu gwledig yn cael ei weld mor allweddol i effaith dilynol gweithgaredd y prosiect.


Siart 7

Oes gennych chi gynlluniau i barhau i ddatblygu'r weithgaredd oedd yn ymwneud â'r prosiect gwreiddiol a gefnogwyd trwy ddatblygu gwledig? Ticiwch yr un sy'n disgrifio'r sefyllfa orau (n=19)




Siart 8


Pa mor bwysig oedd y cymorth datblygu gwledig gwreiddiol a gawsoch fel catalydd i'ch helpu i sicrhau'r effeithiau tymor hirach rydych wedi'u disgrifio? (Ticiwch un) (n=22)




Yn olaf, roeddem hefyd am ddeall os oedd y cymorth datblygu gwledig gwreiddiol wedi helpu i sicrhau cyllid/buddsoddiad pellach i'r mudiadau a gefnogwyd. Roedd chwarter (4) y rhai a ymatebodd wedi cael cymorth pellach gan Gymunedau Gwledig Creadigol (trwy raglenni LEADER dilynol mae'n debyg). Dim ond 2 fudiad oedd wedi cael cymorth trwy raglenni cenedlaethol. Mae'r adborth felly yn dangos, y tu hwnt i gynlluniau ariannu lleol, nad oedd y prosiectau wedi cael llawer o gyllid o'r tu allan. Yn ddiddorol, roedd nifer fach o fusnesau a gefnogwyd wedi cael buddsoddiad preifat pellach e.e. dyled/ecwiti/cyllido torfol. Roedd hyn yn galonogol, er ei fod yn seiliedig ar nifer fach o fusnesau.

Siart 9

Ydych chi wedi cael cyllid neu fuddsoddiad o ffynonellau eraill, gan adeiladu ar gyfleoedd o'r cymorth datblygu gwledig a gawsoch? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) (n=16)




## Casgliadau - arolwg ar-lein

Mae canlyniadau'r arolwg ar-lein yn cynnig adnodd defnyddiol arall ar gyfer deall a dangos gwaddol tymor hir y rhaglenni blaenorol. Er bod nifer yr ymatebion yn siomedig, nid oedd yn annisgwyl gan fod nifer o'r prosiectau wedi'u cefnogi flynyddoedd yn ôl. Mae'r casgliadau o'r 25 ymateb fel a ganlyn:

- O'r rhai a ymatebodd, roedd y mwyafrif o'r cynlluniau yn dal ar waith, gydag ychydig iawn wedi gorffen yn annisgwyl. Serch hynny, roedd nifer y gweithgareddau a ariannwyd wedi newid, gan addasu i gyd-fynd â newidiadau yn y cyd-destun a gofynion y busnesau a gefnogwyd.
- Roedd y gefnogaeth gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol (i'r prosiectau a gafodd gymorth) yn cael ei weld yn bwysig iawn yn natblygiad y gweithgareddau.
- Roedd yr ymatebwyr yn nodi, heb gefnogaeth Cymunedau Gwledig Creadigol, ei bod yn annhebygol y byddai prosiectau wedi digwydd o gwbl neu wedi digwydd yn arafach neu ddim o'r ansawdd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r adborth yng ngwerthusiadau'r rhaglenni blaenorol (ac yng ngwerthusiad canol tymor y rhaglen gyfredol).
- Mae'r prif fanteision i'r mudiadau a gefnogwyd i weld yn canolbwyntio ar eu wella eu gwytnwch a'u cynaliadwyedd ariannol, gan ganiatáu iddynt ddatblygu cynnyrch/gwasanaethau newydd ac amrywio eu gweithgareddau. Mae tystiolaeth fwy cymysg am yr effaith o safbwynt refeniw masnachol.
- Ychydig o dystiolaeth oedd yn yr arolwg fod y rhaglen wedi cael effaith sylweddol ar gyflogaeth o fewn y busnesau a gefnogwyd, neu o leiaf yn cael ei briodoli i'r cymorth datblygu gwledig a gafwyd.
- Serch hynny, mae'r prosiectau wedi cefnogi set ehangach o fanteision na ddylid eu hanwybyddu ac sy'n gysylltiedig ag amcanion y rhaglenni ariannu. Un o'r rhai amlycaf yw helpu i hwyluso mwy o synnwyr o gymuned a lleihau ynysu cymdeithasol mewn cymunedau gwledig.
- Yn olaf, ychydig o dystiolaeth oedd yn yr arolwg o gael cyllid o raglenni cenedlaethol ehangach i raddau helaeth. Serch hynny, roedd prosiectau wedi manteisio ar gyfleoedd mwy lleol (yn cynnwys o raglenni LEADER dilynol), neu fedru denu buddsoddiad preifat.

# 5 Casgliadau - effaith gwaddol

Mae ein casgliadau yn dod yn ôl at y cwestiynau yn y brîff, ac rydym yn trafod pob un yn ei dro.

## 5.1 Effaith bositif barhaus ar brosiectau, pentrefi a sectorau gafodd gymorth gan y Cynllun Datblygu Gwledig ers 2007

Teimlwn fod yr astudiaethau achos sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dangos fod y gefnogaeth wreiddiol a roddwyd trwy'r rhaglenni LEADER blaenorol wedi cael effaith gadarnhaol ar gymunedau yn y Fro wledig. Yn bwysig, ategwyd y gefnogaeth gychwynnol – cymorth ariannol ar raddfa fach yn aml – gan berthynas barhaus y prosiectau â thîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Y cyfuniad o'r gefnogaeth 'galed' (ar ffurf cymorth ariannol) a 'meddal' (ar ffurf cefnogaeth Cymunedau Gwledig Creadigol) sydd wedi darparu'r amodau i unigolion a chymunedau ddatblygu dros amser.

Mae'r astudiaethau achos – a'r cyfweliadau oedd yn cyd-fynd â hynny – wedi dangos fod y manteision positif yn tueddu i ddatblygu dros amser, ychydig ar y tro, ac yn sicr ddim mewn llinell daclus. Mae rhai busnesau a mudiadau sydd wedi profi problemau sydd wedi golygu newid cyfeiriad. Dyma lle mae cefnogaeth Cymunedau Gwledig Creadigol wedi bod yn amhrisiadwy. Maent wedi bod yno i helpu'r busnes/mudiad i fanteisio ar gyfleoedd newydd allai fod ar gael yng ngwahanol gyfnodau'r rhaglen. Mewn sawl ffordd, mae hyn yn esbonio pam fod rhai prosiectau neu unigolion wedi cael cefnogaeth trwy bob un o gyfnodau'r rhaglen.

Pwynt arall i'w nodi yw fod y Fro wledig yn ardal weddol gefnog – nid yw amddifadedd a thlodi mor amlwg ag yn rhai o'r ardaloedd LEADER eraill. Un canlyniad yw ei bod yn aml yn anoddach gweld effaith y rhaglen LEADER. Mae'n anodd manylu ar un ymyrraeth y gellir ei ddefnyddio i ddangos newid mewn amodau cymdeithasol economaidd yn sgil cymorth LEADER. Yn hytrach, mae'r manteision wedi bod mewn camau bach, iteraidd – bron yn 'haenu' cymorth o gyfnodau gwahanol y rhaglen i sicrhau'r amcanion. Mae'r astudiaethau achos o Sain Tathan a'r astudiaeth achos ehangach ar thema cynhwysiant cymdeithasol yn dangos sut mae nifer o brosiectau LEADER wedi cyfuno dros amser i ymdrin â phroblemau sydd wedi bodoli ers tro. Mae nifer o'r rhain yn parhau. Ond mewn ffyrdd bach, mae rhaglen LEADER wedi cyfrannu tuag at wneud pethau'n well.

Yn yr un modd, mae'r gwahanol fentrau twristiaeth – megis Llwybrau'r Fro, Arfordir Treftadaeth Morgannwg ac Archwilio a Mwy – oll yn cyfuno dros amser i helpu i newid barn am y Fro fel cyrchfan ynddi ei hun. Roedd adborth o Archwilio a Mwy yn teimlo fod nifer o fusnesau lleol wedi manteisio o'r cynnydd yn nifer y bobl oedd yn ymweld ag asedau treftadaeth y Fro, er ei bod yn anodd cael tystiolaeth am hyn. Roedd nifer o'r rhanddeiliaid/partneriaid y gwnaethom eu cyfweld yn teimlo fod y ddelwedd o'r ardal wedi newid yn ystod rhaglen LEADER a'i bod wedi chwarae rhan bwysig yn hynny. Mae'n amhosibl priodoli hyn i un prosiect yn unig, yn hytrach bu'n gyfuniad o weithgareddau a ariannwyd – eto'n gweithio gam wrth gam.

## 5.2 Effaith "tonnau" cyllid LEADER yn arwain at ddatblygiadau pellach ar lefel prosiect, gyda rhwydweithiau, partneriaethau a grwpiau eraill, ar lefel gymunedol neu ar lefel ehangach y Fro wledig

Mae'n glir o'r astudiaethau achos – ac o'r cyfweliadau a gynhaliwyd – fod cymorth LEADER yn aml wedi chwarae rôl bwysig ar gychwyn taith. Mae'r cymorth ariannol bychan a roddwyd yn gynnar yn natblygiad busnesau yn aml wedi bod yn allweddol. Mewn sawl ffordd, roedd y cymorth yn help i roi hwb i hyder y busnes – gan dyfu o hynny ar ei delerau ei hun. Mae bragdy Tomos a Lilford, Loving Welsh Food, y Food Collective ac Out to Learn Willow oll yn enghreifftiau da o hyn. I brosiectau fel y Food Collective ac Out to Learn Willow, mae'n amlwg fod y manteision wedi treiddio i fudiadau a busnesau eraill. I'r Food Collective, mae cyflenwyr lleol yn manteisio o gael adnodd neu borthol ar gyfer cysylltu â chwsmeriaid lleol. Mae hwn yn nod tebyg i'r hyn mae'r prosiect Arlwyo Ysgolion yn y rhaglen gyfredol yn ceisio'i gyflawni. Mae effeithiau eilaidd sy'n ymestyn y tu hwnt i'r manteision a brofodd y rhai gafodd y cymorth cychwynnol gan y rhaglen. Mae gan y prosiect Arlwyo Ysgolion y potensial i gael effaith gadarnhaol sylweddol yn y Fro trwy greu llwybrau newydd i'r farchnad i gyflenwyr lleol. Er bod nifer o rwystrau i'w goresgyn cyn i gyflenwyr lleol gael ymuno'n llawn â'r prosiect arlwyo ysgolion, mae enghreifftiau o effeithiau positif yn amlygu'n barod.

### 5.3 Sut mae gwaith LEADER wedi gweithio ar y cyd â chronfeydd eraill y Cynllun Datblygu Gwledig, megis Echel 3 a'r Gronfa Datblygu Cymunedol Gwledig, a mudiadau eraill fel Undeb Amaethwyr Cymru a Chyswllt Ffermio

Yr adborth a gafwyd yn ystod y gwerthusiad – yn bennaf ar gyfer y gwerthusiad canol tymor– yw fod partneriaid a rhanddeiliaid yn teimlo fod y Fro wedi colli ffynhonnell gefnogaeth bwysig trwy golli Echel 3, gyda'r Gronfa Datblygu Cymunedol Gwledig yn cymryd ei lle (er ddim yn uniongyrchol). Yn allweddol, gwelwyd symud o raglen gyfalaf gyda dylanwad lleol i un a weinyddir y ganolog gan Lywodraeth Cymru yn niweidiol. Mae'r ffaith fod y Gronfa Datblygu Cymunedol Gwledig yn cael ei gweld yn araf a thrafferthus yn atgyfnerthu hynny.

Barn rhanddeiliaid felly – yn cynnwys aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol – yw fod y rhaglen flaenorol yn gweithio'n llawer gwell ar y cyd â cyllid arall o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru. Roedd y cyswllt yn cael ei ystyried yn gadarnhaol yn y gwerthusiad diwethaf ar lefel rhaglen.

Tra bo tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn gweithio gyda phrosiectau i lunio ceisiadau i'r Gronfa Datblygu Cymunedol Gwledig, mae adolygiad or ceisiadau a'r nifer a gymeradwywyd (gan nodi fod rhai wedi cael eu gwrthod) yn dangos fod nifer wedi dod gan Gyngor Bro Morgannwg fel yr ymgeisydd. Efallai mai dim ond y mudiadau mwy, fel y Cyngor, sydd â'r amser a'r arbenigedd sydd ei angen i lunio ceisiadau. Gwelwyd Echel 3 fel rhaglen fwy 'lleol', ac yn cael ei gweld yn llai amheus mewn rhai ffyrdd.

Wedi dweud hynny, yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd fel rhan o'r gwaith ar y gwaddol, nid ydym wedi gweld tystiolaeth eang o brosiectau yn mynd ymlaen at raglenni ariannu mwy. Fel y gwelir yn Siart 9, ychydig iawn o'r mudiadau a ymatebodd i'r arolwg ar-lein oedd wedi mynd ymlaen i fanteisio ar raglenni cenedlaethol eraill. Mae'r astudiaethau achos hefyd yn dangos fod cyllid a chefnogaeth lleol ar raddfa fach yn aml yn bwysicach na chefnogaeth rhaglenni cenedlaethol mawr.

### 5.4 Amrywiaethau yn y modd mae gwahanol fethodoleg/meini prawf cymhwyser LEADER wedi effeithio ar y canlyniadau a ddisgwyliwyd, megis creu swyddi

Un o'r cwestiynau yn y brîff oedd i ddeall os oes rhaglenni blaenorol wedi cael effaith bositif amlycach ar greu swyddi. Ar sail y dystiolaeth rydym wedi'i chasglu ar gyfer y gwerthusiad hwn, ein barn ni yw ei bod yn rhy anodd dweud. Tra bo gwerthusiad rhaglen Cynllun Busnes 2 wedi nodi enghreifftiau lle cafwyd canlyniadau positif i swyddi, er enghraifft amlycaf yw trwy Falchder yn ein Teuluoedd Amaethyddol, sydd heb ei ariannu'n uniongyrchol gan LEADER.[11] Nid yw ein gwaith yn y gwerthusiad hwn wedi medru cadarnhau'r gwaith creu swyddi hwn nac adnabod enghraifft arall.

Nid yw'r busnesau rydym wedi'u hamlinellu fel astudiaethau achos wedi cael effaith sylweddol ar gyflogaeth. Maent yn tueddu i fod yn fusnesau bach sy'n cyflogi nifer fechan o bobl. Cafodd hyn ei atgyfnerthu yng nghanfyddiadau ein arolwg ar-lein. Roedd ymatebion tua 30 prosiect yn awgrymu mai bychan oedd yr effaith ar gyflogaeth i'r sefydliadau hynny. Roedd yr astudiaethau achos hefyd yn nodi pwysigrwydd Ymweld â'r Fro yn helpu i brif ffrydio gweithgaredd twristiaeth; ac i un prosiect, roedd wedi galluogi dilyn ymlaen i brosiectau eraill. Mewn achosion felly, bydd cyllid pellach ar gael, ond yn anuniongyrchol ac yn gyllid dilynol.

Tra bo pob swydd yn bwysig (yn enwedig o gofio fod economi'r DG ac economi lleol y Fro wedi bod ar gyflogaeth lawn bron a bod), mae'n tueddu i awgrymu effaith wan drwyddi draw.

Tra bydd culhau'r meini prawf cymhwyster yn y rhaglen gyfredol yn cyfyngu ar y gallu i greu swyddi (yn benodol oherwydd y diffyg gallu i gefnogi busnesau), nid yw tystiolaeth o'r rhaglenni blaenorol yn awgrymu y bydd hyn yn sylweddol.

Serch hynny, credwn y dylid ystyried rhaglen LEADER ar sail llawer ehangach, fe gyflwynodd ystod eang o fanteision y tu hwnt i fanteision masnachol yn unig, sydd wedi bod yn bwysig dros ben. Mae'r adborth rydym wedi'i gael yn awgrymu effaith gref o ran tynnu cymunedau at ei gilydd a lleihau ynysu cymdeithasol i nifer o unigolion a chymunedau yn arbennig.

---

[11] *Cafodd y prosiect gyllid datblygu gwledig trwy Echel 3*

### Sut gallai newid rheoliadau fod wedi effeithio ar gyflwyno LEADER yn y Fro wledig

Yn ogystal â'r cwestiynau gwerthuso yn y brîff yr ydym wedi ymateb iddynt uchod, rydym hefyd yn ymwybodol o bryderon am y modd y mae'r dull cyflwyno cymorth gwledig yn y rhaglen gyfredol yn wahanol i raglenni blaenorol, ac felly wedi bod yn niweidiol i sicrhau effaith datblygu gwledig.

Mae ein cyfweliadau a'n dadansoddiad yn dangos fod cael gwared o'r sicrwydd ynghylch Cymorth Gwladwriaethol gan Lywodraeth Cymru, ac felly'r analluu i ddarparu unrhyw gymorth grant i fusnesau unigol yn y rhaglen LEADER gyfredol, wedi cael effaith gymysg.

Mae nifer o bobl, yn cynnwys aelodau presennol a blaenorol y Grŵp Gweithredu Lleol, wedi dweud eu bod yn teimlo'n llai o ran o'r broses ac yn teimlo'n llai perthnasol nag oeddynt yn flaenorol. Mae'r gallu i wneud penderfyniadau yn lleol, allai gynhyrchu canlyniadau gweledol yn gymharol gyflym, wedi'i golli.

Effaith arall yw'r ffaith nad yw busnesau lleol yn ymwneud mor uniongyrchol â'r cynllun ag oeddynt yn flaenorol, a bod teimlad fod y diffyg grantiau bach a weinyddir yn lleol yn defnyddio cyllid Cynllun Datblygu Gwledig Cymru wedi lleihau'r cyfleoedd ar gyfer syniadau ar gyfer busnesau newydd a thyfu busnesau sy'n bodoli. Serch hynny, mae'n dal yn bosibl gwneud cais am gymorth gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru trwy'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig, ond mae honno wedi bod yn broses fwy biwrocrataidd, yn seiliedig ar feini prawf cenedlaethol ac yn cael ei rheoli'n genedlaethol. Nid yw chwaith yn gyfle grant ar gyfer busnes.

Roedd nifer o bobl wedi nodi y gallai hyd yn oed symiau gweddol fychan o gyllid catalydd lleol ddarparu modd i fusnesau a phrosiectau lleol gynyddu eu maint neu gyflwyno cynnyrch neu wasanaeth newydd.

Serch hynny, mae'r rheoliadau newydd wedi ysbrydoli tîm Cymunedau Gwledig Creadigol i weithio mewn ffordd wahanol gyda chymunedau a busnesau ar draws y Fro wledig. Maent wedi bod yn hynod greadigol yn cynllunio a rheoli prosiectau sydd â'r potensial i wneud gwahaniaeth yn yr ardal. Bydd rhai ohonynt yn cefnogi busnesau, ond mewn ffordd llai uniongyrchol nag o'r blaen – ond dylai'r effaith ar fusnesau gynyddu. Mae'n debygol y bydd rhai prosiectau yn cymryd yn hirach i aeddfedu nag o'r blaen – ond maent wedi gosod sylfaen cadarn ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.